**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Diwygio’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin 2012
Medi 2010

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yw’r offeryn a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd i reoli pysgodfeydd a dyframaeth. Diwygir y polisi presennol erbyn diwedd 2012.

Mae'r papur hwn yn sôn am brif agweddau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a'r materion allweddol sy'n debygol o fod yn destun newid yn niwygiadau 2012. Crynhoir ymateb rhanddeiliaid i Bapur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd gan ganolbwyntio ar y materion hynny sydd o'r pwys mwyaf i bysgodfeydd y Deyrnas Unedig a physgodfeydd Cymru.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r cyfan o'r 60 Aelod Cynulliad a'u staff.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu ysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosib i roi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylw ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallech eu hanfon at y cyfeiriad post neu ebost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur drwy safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ebost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 10/1476

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin 2012

Medi 2010

Amy Keita Styring

Rhif dogfen: 10/062

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

# Crynodeb

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yw'r offeryn a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd i reoli pysgodfeydd a dyframaeth. Fe'i hadolygir bob yn hyn a hyn a disgwylir iddo gael ei ddiwygio nesaf erbyn diwedd 2012. Mae cryn feirniadaeth wedi bod ar y PPC presennol a'r farn gyffredinol yw iddo fethu â mynd i'r afael â phroblemau gorbysgota a gwneud diwydiant pysgota Ewrop yn fwy hyfyw o safbwynt economaidd.

Ar 22 Ebrill 2009, mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd Bapur Gwyrdd yr ymgynghorwyd yn ei gylch. Roedd hwnnw'n cynnwys y prif faterion y rhoddid sylw iddynt wrth ddiwygio. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 31 Rhagfyr 2009. Mae'r Comisiwn wrthi yn awr yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghori ac ystyrir y rhain wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth.

Mae'r Papur Gwyrdd yn sôn am bum prif flaenoriaeth ar gyfer diwygio:

**1.** Rhoi diwedd ar orbysgota.

**2.** Canolbwyntio ar amcanion y PPC.

**3.** Canolbwyntio'r fframwaith penderfynu ar egwyddorion tymor hir.

**4.** Annog y diwydiant i fod yn fwy cyfrifol.

**5.** Meithrin diwylliant cydymffurfio.

Ystyrir sawl agwedd arall ar y polisi yn ystod y broses diwygio hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys sut mae'r PPC yn mynd ati i drefnu'r farchnad, integreiddio'r PPC i bolisïau ehangach sy'n ymwneud â'r môr a defnyddio cronfeydd strwythurol i gynorthwyo'r byd pysgota yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r papur hwn yn cynnig golwg gyffredinol ar y materion allweddol a drafodir ym Mhapur Gwyrdd y Comisiwn a safbwyntiau rhanddeiliaid wrth iddynt ymateb i'r materion hyn. Lle bo'n berthnasol, mae'n asesu sut mae'r materion hyn yn effeithio ar ddiwydiant pysgota'r Deyrnas Unedig ac ar ddiwydiant pysgota Cymru.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyrdd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bysgotwyr sy'n pysgota ar raddfa fach ac mae hynny'n groes i'r hyn y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn canolbwyntio arno, sef y fflyd pysgota masnachol ar raddfa fawr. Y brif flaenoriaeth i Gymru yn y diwygio nesaf fydd ceisio sicrhau bod pysgota'r glannau ar raddfa fach, sef y math o bysgota sydd fwyaf cyffredin ymhlith pysgotwyr Cymru, yn cael ei drin yn wahanol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd ymhlith llawer o randdeiliaid sy'n galw am reoli pysgodfeydd drwy drefniadau rhanbarthol, yn enwedig yng nghyswllt rhanbarth pysgodfeydd y glannau. Maent hefyd o blaid asesu pysgodfeydd ar sail

ecosystemau er mwyn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i'w rheoli'n gyson ag arferion pysgota cynaliadwy.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** .......... **1**

1.1. Hanes y PPC .......... 2
1.2. Diwygio'r PPC .......... 2
1.3. Y PPC Presennol .......... 3
1.4. Diwygio 2012 .......... 5
1.5. Pysgota yng Nghymru .......... 6

**2. Materion Allweddol** .......... **9**

2.1. Stociau Pysgod yn Dirywio .......... 9
2.2. Blaenoriaethu Amcanion Polisi .......... 13
2.3. Y Fframwaith Penderfynu .......... 14
2.4. Cyfrifoldeb y Diwydiant .......... 17
2.5. Datblygu Diwylliant Cydymffurfio .......... 19
2.6. Trin Pysgodfeydd ar Raddfa Fach yn Wahanol .......... 22
2.7. Rheoi Adnoddau Pysgodfeydd .......... 25
2.8. Sefydlogrwydd Cymharol .......... 26
2.9. Mynediad at Adnoddau .......... 29
2.10. Ystyriaethau'r Farchnad .......... 29
2.11. Integreiddio'r PPC yng Nghyd-destun y Polisi Morol Ehangach .......... 33
2.12. Ymchwil a Datblygu .......... 35
2.13. Polisi Strwythurol .......... 37
2.14. Dimensiwn Allanol .......... 40
2.15. Dyframaeth .......... 42
2.16. Crynodeb o Safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyrdd .......... 45

**3. Amserlen ar gyfer Diwygio'r PPC** .......... **46**

**Atodiadau** .......... **47**

**A. Dosbarthiad y Pysgodfeydd Môr Masnachol yng Nghymru** .......... **47**

**B. Crynodeb o'r Prif Gategorïau Dyframaeth yng Nghymru** .......... **48**

**C. Ardal Parth Pysgodfeydd Newydd Cymru** .......... **49**

**D. Byrfoddau** .......... **50**

Nodyn: Gan mai ym mis Rhagfyr 2009 y cafwyd yr ymatebion i Bapur Gwyrdd y Comisiwn, safbwyntiau'r Llywodraeth flaenorol y cyfeirir atynt wrth sôn am safbwyntiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y papur hwn. Nid yw barn Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig ynghylch y materion hyn yn hysbys eto ond ni chafwyd yr un awgrym hyd yma y bydd y farn honno'n wahanol iawn i farn y Llywodraeth flaenorol.

# Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

## 1. Cyflwyniad

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yw'r offeryn a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd i reoli pysgodfeydd a dyframaeth.[1] Gan fod pysgod a mathau eraill o fywyd yn y môr yn adnodd sy'n symud o le i le heb barchu ffiniau cenedlaethol ac am eu bod yn dibynnu ar rannu ecosystemau'r môr, gall yr hyn a wnaiff un fflyd pysgota effeithio ar gyfleoedd i eraill. Felly, mae rheoli pysgodfeydd o dan y PPC yn bolisi integredig gan yr Undeb Ewropeaidd. Y Comisiwn Ewropeaidd sy'n gyfrifol am ddrafftio deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â physgodfeydd ond yr Aelod Wladwriaethau unigol sy'n gyfrifol am roi polisïau pysgodfeydd ar waith a'u rheoli.[2]

Adolygir y PPC bob 10 mlynedd. Fe'i diwygiwyd ddiwethaf yn 2002. Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno nad yw diwygio 2002 wedi cyflawni'r amcan y bwriadwyd iddo'i gyflawni, sef gwneud sector pysgodfeydd Ewrop yn fwy cynaliadwy. Felly, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn paratoi i ddiwygio'r PPC a daw'r diwygiad hwnnw i rym o 2013 ymlaen.

Ar 22 Ebrill 2010, mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd bapur gwyrdd sef, *Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*.[3] Wrth gyflwyno'r Papur Gwyrdd, dywedodd y Comisiynydd Pysgodfeydd a Materion Morol ar y pryd, Joe Borg:[4]

> We are asking questions even on the fundamentals of the current policy and should leave no stone unturned. We are not looking for just another reform. It is time to design a modern, simple and sustainable system for managing fisheries in the EU which is able to last well into the 21st century.

Yn ôl y Comisiwn, mae'r diwygio hwn yn cynnig cyfle i ailasesu llwyddiannau a diffygion y PPC presennol.[5] Mae'n cynnig cyfle i'r Deyrnas Unedig ac i Gymru ddatgan eu blaenoriaethau ar gyfer y mesurau polisi sydd ar y gweill

---

[1] Ffermio organebau yn y dŵr megis pysgod a physgod cregyn yw dyframaeth.
[2] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy, A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[3] COM(2009)163 terfynol, *Green paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[4] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Fisheries: Open debate on the future of the European Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[5] COM(2009)163 terfynol, *Green paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

## *1.1. Hanes y PPC*

Lluniwyd mesurau cyffredin cyntaf y sector pysgota yn 1970 pan gytunwyd, mewn egwyddor, y dylai holl bysgotwyr yr Undeb Ewropeaidd gael yr un hawl i bysgota yn nyfroedd yr Aelod Wladwriaethau. Eithriwyd y stribed ar hyd yr arfordir (o fewn 6 morfilltir i'r lan) gan neilltuo'r dyfroedd hynny i bysgotwyr lleol a oedd wedi pysgota'r ardaloedd hynny erioed.

Yn 1976, estynnodd yr Aelod Wladwriaethau eu hawliau i adnoddau'r môr rhwng 12 a 200 milltir o'u glannau, yn unol â chytundebau rhyngwladol. Cyfyngwyd pysgota o fewn y parth 6-12 morfilltir (mf) i gychod o'r Aelod Wladwriaeth a physgotwyr a chanddynt hawliau hanesyddol.[6] Penderfynodd yr Aelod Wladwriaethau hefyd mai'r Undeb Ewropeaidd oedd yn y lle gorau i reoli pysgodfeydd yn y dyfroedd a oedd o dan eu hawdurdodaeth (hyd at 200 milltir o'u glannau) ac i amddiffyn eu buddiannau mewn trafodaethau rhyngwladol.

Sefydlwyd y PPC yn 1983 er mwyn gwarchod a rheoli adnoddau pysgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd.

Yr oedd y PPC yn cynnwys pedwar maes gan obeithio y byddent, gyda'i gilydd, yn mynd i'r afael â dimensiwn biolegol, economaidd a chymdeithasol pysgota:

**1.** Gwarchod stociau pysgod;

**2.** Cymorth ariannol i ailstrwythuro (cychod, cyfleusterau porthladdoedd a safleoedd prosesu);

**3.** Cyd-drefnu'r farchnad;

**4.** Polisi ar gyfer pysgodfeydd allanol gan gynnwys cytundebau â gwledydd eraill (y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd) a chyrff rhyngwladol.

## *1.2. Diwygio'r PPC*

Aeth yr adolygiad cyntaf o'r PPC yn 1992 i'r afael â phryderon ynglŷn â chynaliadwyedd stociau pysgod yr Undeb Ewropeaidd. Ceisiodd fynd i'r afael â gorgapasiti fflyd yr Undeb Ewropeaidd drwy argymell y dylid lleihau maint y fflyd a lliniaru effaith gymdeithasol y gostyngiad hwnnw drwy gyfrwng mesurau strwythurol. At hynny, estynnwyd cwmpas y PPC y tu hwnt i reoli adnoddau pysgodfeydd i gynnwys pob adnodd sy'n byw yn y dŵr, gan gynnwys dyframaeth.[7]

---

[6] Rheoliad y Cyngor 170/83 *ynglŷn â sefydlu system yn y Gymuned i gadw a rheoli adnoddau pysgodfeydd* OJ L 170, 27.01.83 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

[7] Rheoliad y Cyngor 3760/92 *ynglŷn â sefydlu system yn y Gymuned i gadw a rheoli adnoddau pysgodfeydd* OJ L 389, 31.12.92 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

Am fod cynaliadwyedd stociau pysgod a gwarchod adnoddau'r dŵr yn dal yn destun pryder, diwygiwyd y PPC eto yn 2002. Yn ôl Canllaw'r Comisiwn Ewropeaidd i'r PPC, aeth diwygio 2002 i'r afael â'r pryderon hyn mewn pedair prif ffordd:[8]

- Roedd yn hybu mwy o gyfraniad gan randdeiliaid drwy greu'r Cynghorau Cynghori Rhanbarthol;
- Ailgyfeiriwyd cymorthdaliadau er mwyn cynorthwyo i leihau capasiti'r fflyd ac er mwyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli capasiti i'r Aelod Wladwriaethau;
- Roedd yn ceisio symleiddio a mireinio'r rheoliadau er mwyn lleihau'r baich ar bysgotwyr ac ar weinyddwyr ill dau;
- Cyflwynwyd cynlluniau amlflwydd i annog ymrwymiadau strategol tymor hir er mwyn sicrhau cynaliadwyedd stociau pysgod.

## *1.3. Y PPC Presennol*

Ar ôl diwygio'r PPC yn 2002, mae'r fframwaith ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau'r PPC bellach i'w weld yn *Rheoliad y Cyngor Rhif 2731/2002 ynglŷn â chadwraeth ac ymelwa mewn ffordd gynaliadwy ar adnoddau pysgodfeydd o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin*.[9]

Yn ôl y Rheoliad hwn, amcan y PPC yw darparu ar gyfer ymelwa'n gynaliadwy ar adnoddau byw'r dŵr ac ar ddyframaeth yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy, gan roi sylw cytbwys i agweddau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. [10]

Prif nodweddion y PPC yw:[11]

**Mesurau Cadwraeth**

- Cynlluniau Adfer Amlflwydd ar gyfer stociau sydd o dan derfynau biolegol diogel;
- Cynlluniau Rheoli Amlflwydd ar gyfer stociau sydd o fewn terfynau biolegol diogel;
- Targedau ar gyfer ymelwa mewn ffordd gynaliadwy ar stociau pysgod - o ran niferoedd y dalfeydd, nifer y cychod pysgota a ddefnyddir a pha fath o gychod;

---

[8] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy, A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[9] Rheoliad y Cyngor 2371/2002 *ynglŷn â Chadwraeth ac Ymelwa'n Gynaliadwy ar Adnoddau Pysgodfeydd o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin* OJ L 358, 31.12.02 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[10] ibid.
[11] ibid.

- Cyfyngu ar yr ymdrech pysgota fel dull ychwanegol o gyfyngu ar weithgarwch pysgota;
- Mabwysiadu mesurau technegol megis diffinio'r math o gêr pysgota a ddefnyddir, dynodi parthau/tymhorau pan waherddir pysgota, gan bennu maint lleiaf y pysgod y caniateir eu dal;
- Cymhellion i hyrwyddo dulliau pysgota sy'n cael llai o effaith niweidiol;
- Cynnal prosiectau peilot i dreialu dulliau rheoli pysgota a allai fod yn fwy cynaliadwy;
- Caniatáu i'r Comisiwn neu i Aelod Wladwriaeth roi Mesurau Argyfwng ar waith os oes tystiolaeth bod bygythiad difrifol i ecosystemau'r môr yn sgil pysgota.

**Addasu Capasiti'r Fflyd**

- Polisi newydd ar gyfer y fflyd, gan gyflwyno terfynau cenedlaethol yn lle targedau gorfodol er mwyn lleihau'r capasiti, lle bydd yr Aelod Wladwriaethau'n dewis sut maent yn gweithredu eu polisi ar gyfer y fflyd;
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio arian cyhoeddus i adeiladu cychod newydd;
- Cyflwyno 'cronfa sgrapio' i leihau fflyd yr Undeb Ewropeaidd.

**Mynediad at Ddyfroedd ac Adnoddau**

- Cyfyngu ar bysgota o fewn y parth 12mf i gychod o'r Aelod Wladwriaeth neu i'r rheini a chanddynt hawliau hanesyddol;
- Dyrannu terfynau dal i Aelod Wladwriaethau yn ôl egwyddor 'sefydlogrwydd cymharol'. Bydd pob Aelod Wladwriaeth yn penderfynu sut mae rhannu'r cwota hwnnw rhwng cychod pysgota'r Aelod Wladwriaeth honno.

**Rheoli a Gorfodi**

- Bydd gan gychod pysgota sy'n hwy na 15 metr system 'monitro o bell' ar eu bwrdd;
- Dim ond i brynwyr cofrestredig neu mewn ocsiynau cofrestredig y ceir gwerthu cynnyrch pysgodfeydd;
- Rhaid i Aelod Wladwriaethau sicrhau bod y cychod pysgota a gofrestrir yn eu gwlad yn cadw at y PPC;
- Bod Aelod Wladwriaethau'n arolygu ac yn rheoli'r mesurau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â'r PPC yn eu dyfroedd (hyd at 200 milltir o'u glannau);
- Bydd y Comisiwn yn goruchwylio rhoi rheolau'r PPC ar waith.

**Penderfynu ac Ymgynghori**

- Bydd saith Cyngor Cynghori Rhanbarthol yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwneud mwy â'r broses ar lefel ranbarthol;
- Ymgynghorir â'r Pwyllgor Gwyddonol, Technegol ac Economaidd ar gyfer Pysgodfeydd ynghylch materion sy'n ymwneud â gwarchod a rheoli adnoddau sy'n byw yn y dŵr.

**Cronfeydd Strwythurol**

- Er mwyn cyflawni amcanion y PPC, mae'r Undeb Ewropeaidd yn rhoi cymorth ariannol i'r diwydiant pysgota. Mae Cronfa Pysgodfeydd Ewrop yn berthnasol i gyfnod rhaglennu 2007-2013. Mae'n cynnig cymorth mewn meysydd megis ailstrwythuro'r fflyd, pysgodfeydd ar raddfa fach, cyfleusterau porthladdoedd pysgota, dyframaeth cynaliadwy, a phrosesu a marchnata cynnyrch pysgodfeydd a dyframaeth.

## *1.4. Diwygio 2012*

Diwygir y PPC bob deng mlynedd. Gan ragweld y byddai angen diwygio'r PPC presennol erbyn diwedd 2012, lansiwyd adolygiad o'r PPC gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2008.

Cyhoeddodd y Comisiwn bapur gwyrdd, *Papur Gwyrdd ar Ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin* ym mis Ebrill 2009.[12] Bwriedid i'r papur sbarduno dadl gyhoeddus eang ei chwmpas ynglŷn â dyfodol y polisi, gyda golwg ar lunio fersiwn derfynol y polisi erbyn diwedd 2012.

Wrth lansio'r Papur Gwyrdd, mae'r Comisiwn wedi'i gwneud yn glir bod angen ailfeddwl am y PPC o'i gwr oherwydd diffygion y PPC presennol a'r newid diweddar yn y cyd-destun byd-eang yn sgil cyfuniad o'r argyfwng ariannol, dylanwad cynyddol newid yn yr hinsawdd a'r ffaith nad oes dal ar brisiau tanwydd. Yn y Papur Gwyrdd, nodwyd pum prif ddiffyg yn y PPC ac mae Senedd Ewrop wedi cytuno ar y rhain:[13]

1. Stociau pysgod yn prinhau oherwydd gorbysgota yn sgil gorgapasiti'r fflyd.
2. Amcanion polisi amhendant.
3. Canolbwyntio ar wneud penderfyniadau tymor byr.
4. Nad yw'r diwydiant yn ysgwyddo digon o gyfrifoldeb o ran rhoi'r PPC ar waith.

---

[12] COM(2009)163 terfynol, [Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy](), 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[13] ibid.

5. Diffyg ewyllys gwleidyddol i sicrhau cydymffurfio a diffyg cydymffurfio digonol gan y diwydiant.

Mae nifer o ystyriaethau allweddol eraill sy'n berthnasol i ddiwygio PPC hefyd yn cael eu hystyried.

Trafodir cynnwys y Papur Gwyrdd a'r ymatebion a gafwyd wrth ymgynghori ynglŷn â'r materion sydd dan sylw ynddo yn fwy manwl yn Adran 2 o'r papur hwn.

## *1.5. Pysgota yng Nghymru*

Ceir pedwar prif sector pysgota yng Nghymru: pysgota masnachol yn y môr; genweirio yn y môr at ddibenion hamdden; dyframaeth, a physgodfeydd y glannau. Mae strategaeth tymor hir Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â rheoli a datblygu pob sector pysgota yng Nghymru ar gyfer 2020 i'w gweld yn *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru* (yn Saesneg yn unig).[14]

Yn 2008 roedd 410 o bysgotwyr masnachol rheolaidd yng Nghymru a 585 arall yn pysgota'n rhan amser. O'r holl bysgod a ddaliwyd yng Nghymru gan gychod y Deyrnas Unedig yn 2008, pysgod cregyn oedd 14,900 tunnell a 1,700 tunnell yn bysgod y dyfnfor.[15] Cyfanswm eu gwerth oedd £19.9 miliwn.[16]

### Pysgota Masnachol yn y Môr

O blith y 500 cwch pysgota sy'n angori yng Nghymru, mae oddeutu 450 o'r rhain yn llai na 10 metr o hyd ac nid ydynt ond yn addas ar gyfer pysgota dydd.[17] Fel rheol, byddant yn pysgota'n dymhorol o fewn 6mf i'r lan a hynny am ystod eang o rywogaethau gan gynnwys draenogiaid y môr, crancod, cregyn bylchog, cimychiaid, corgimychiaid, lledod bannog, lledod garw, lledod chwithig, lledod brech, cathod môr, penfreision a gwichiaid.[18] Wrth sôn am y pysgotwyr hyn, dywed Llywodraeth Cymru fel hyn:[19]

> …they have an important role to play within their rural community and, it is argued, tend to fish more sustainably. These type of vessels are limited in their operations, and usually are not able to travel any great extent to fish other grounds and are therefore solely dependent on the sustainability of the local fishery for their future prosperity.

Yn ôl *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru*, y pysgodfeydd ar raddfa fach hyn sy'n cyfrannu fwyaf at economi Cymru o ran eu swmp a'u gwerth. Mae'r sector hwn yn

---

[14] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[15] Mae pysgod y dyfnfor yn cyfeirio at rywogaethau o bysgod sy'n byw ar waelod neu'n agos at waelod y cefnfor.
[16] Asiantaeth y Môr a Physgodfeydd, *United Kingdom Sea Fisheries Statistics 2008*, Medi 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[17] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Response to European Commission Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[18] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[19] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Response to European Commission Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

cefnogi oddeutu 600 o fusnesau, ac mae'r fflyd yn gweithio o 33 o borthladdoedd a harbyrau cydnabyddedig, yn ogystal ag o draethau, traethellau, aberoedd a glanfeydd niferus ar hyd arfordir Cymru.[20]

Mae nifer o gychod ar y môr ym mherchnogaeth Cymry sy'n pysgota o gwmpas glannau Cymru o fewn y terfyn 12mf a'r tu allan iddo. Dengys ffigurau *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru* fod pump o'r rhain yn 'fanerlongau' a gofrestrwyd yng Nghymru ond sydd â'u perchnogion a'u criwiau yng ngogledd Sbaen ac yn cael eu gweithredu oddi yno. Bydd un treillong cregyn bylchog yn gweithio ym Môr y Gogledd drwy'r amser fwy neu lai ac er mai yng Nghymru y mae'r berchnogaeth lesiannol, ychydig mae'r gwaith yn ei gyfrannu at yr economi leol.

Mae'r sector pysgodfeydd hwn ar y môr yn gymharol fawr o ran trosiant economaidd, ond yn ôl *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru,* bach iawn mae'n ei gyfrannu at economi Cymru gan fod y rhan fwyaf o'r pysgod a ddelir gan 'fanerlongau' yn mynd i farchnadoedd Sbaen. At hynny, fel rheol, bydd y rhan fwyaf a ddelir gan y fflyd leol yn mynd i borthladdoedd yn y Deyrnas Unedig y tu allan i Gymru gan nad oes ocsiwn pysgod penodol ar gael yng Nghymru.

Yn Atodiad A ceir tabl o *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru* ac mae hwnnw'n dangos dosbarthiad pysgodfeydd masnachol y môr yng Nghymru.

**Pysgota Hamdden**

Mae pysgota hamdden yn cynnwys tri gwahanol arfer yng Nghymru: genweirio hamdden yn y môr mewn cychod ac oddi ar y lan; pysgota drwy ddulliau eraill megis gosod rhwydi ar y glannau; a genweirio dŵr croyw.

Nid yw'r PPC yn sôn yn benodol am bysgota hamdden. Yng Nghymru ac yn Lloegr, Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth sy'n ymwneud â physgodfeydd dŵr croyw.[21]

**Dyframaeth**

Mae dyframaeth masnachol yng Nghymru yn canolbwyntio ar amaethu pysgod cregyn o dan reolaeth yn y môr a chynhyrchu salmonidau dŵr croyw[22] er mwyn stocio pysgodfeydd hamdden.[23] Mae adran 2.15 y papur hwn yn ymdrin â dyframaeth Cymru yn fwy manwl ac yn Atodiad B, ceir tabl sy'n crynhoi'r prif gategorïau dyframaeth yng Nghymru.

---

[20] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[21] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[22] Mae hyn yn cynnwys eogiaid yr Iwerydd, brithyllod a brithyllod seithliw
[23] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

## Pysgodfeydd Mewndirol

Mae pysgota masnachol ar gyfer rhywogaethau ymfudol[24] megis eogiaid, brithyll môr a llysywod yn dirywio ond mae ychydig o bysgotwyr o gwmpas y glannau ac ar afonydd Cymru yn dal i bysgota'r rhywogaethau hyn.[25] Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sy'n rheoli pysgodfeydd eogiaid a physgod dŵr croyw yng Nghymru. Drwy *Ddeddf Mynediad at yr Arfordir a'r Môr 2009* cyflwynwyd system trwyddedu ac awdurdodi newydd ar gyfer gweithgareddau pysgota a rhoddwyd pwerau i'r Asiantaeth wneud is-ddeddfau er mwyn ymateb i fygythiadau nas rhagwelwyd i'r stociau pysgod.[26]

Mae diwygio'r PPC yn bwysig i Gymru oherwydd bod pysgota'n rhan bwysig o'i heconomi ac am ei fod yn cael effaith gymdeithasol sylweddol ar gymunedau bach y glannau.[27]

---

[24] Cyfeiria ymfudol yn y cyswllt hwn at rywogaethau sy'n treulio rhan o'u cylch oes yn y môr a rhan ohono mewn aberoedd ac afonydd.
[25] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[26] *Marine and Coastal Access Act* 2009, (Pennod 23)
[27] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

## 2. Materion Allweddol

Sonnir am nifer o faterion allweddol ym Mhapur Gwyrdd y Comisiwn ynglŷn â diwygio'r PPC. Archwilir y rhain yma yn yr un drefn ag y maent yn ymddangos yn y Papur Gwyrdd.

### *2.1. Stociau Pysgod yn Dirywio*

Yn ôl y data a ddyfynnir ym Mhapur Gwyrdd y Comisiwn, mae 88 y cant o stociau pysgod yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu pysgota y tu hwnt i'w Terfyn Cynaliadwy.[28] Mae tri deg y cant o'r stociau hyn y tu allan i derfynau biolegol diogel, sydd o bosibl yn golygu na fydd modd eu hailgyflenwi.[29] Mae'r Papur Gwyrdd yn dweud ei bod yn hanfodol sicrhau cynaliadwyedd adnoddau pysgodfeydd er mwyn sicrhau llwyddiant y diwydiant pysgota am flynyddoedd i ddod.

Credir mai gorgapasiti'r fflyd yw prif achos y dirywiad hwn yn adnoddau'r pysgodfeydd. Yn ôl y Comisiwn yn ei Bapur Gwyrdd:[30]

> Despite continued efforts, fleet overcapacity remains the fundamental problem of the CFP. Overall, the European fleets remain far too large for the resources available and this imbalance is at the root of all problems related to low economic performance, weak enforcement and overexploited resources.

Amcangyfrifa Llys Archwilwyr Ewrop fod fflyd yr Undeb Ewropeaidd oddeutu 50 y cant yn fwy nag y dylai fod.[31]

Mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cytuno bod capasiti pysgota'r Undeb Ewropeaidd yn fwy na'i sylfaen adnoddau.[32] Serch hynny, mae llawer o randdeiliaid, gan gynnwys Cyngor Cynghori'r Dyfroedd Gogledd-orllewinol sy'n gyfrifol am gynghori ynglŷn â dyfroedd Cymru ymhlith pethau eraill, yn dadlau yn erbyn y cyffredinoli hwn ac mae'n galw am archwiliad cynhwysfawr i ddynodi ardaloedd penodol lle mae gorgapasiti'n broblem er mwyn i'r polisi allu canolbwyntio ar yr ardaloedd penodol hyn.[33]

O dan y PPC presennol, mae nifer o strategaethau ar gael i gyfyngu ar faint o bysgod a leddir ac ar effaith pysgota ar yr amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

---

[28] COM(2009)163 terfynol, *Green paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010], ar sail data gan ICES
[29] ibid.
[30] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[31] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[32] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[33] NWWRAC, *Opinion on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

- **Cyfanswm y Dalfeydd a Ganiateir**. Er 1983 dyma'r prif gyfrwng a ddefnyddir i gyfyngu ar nifer y pysgod a leddir. Terfynau ar ddalfeydd yw'r cyfansymiau hyn a bennir ar gyfer y rhan fwyaf o'r stociau pysgod masnachol. Cynigir y rhain gan y Comisiwn ar sail cyngor gwyddonol ac fe'u pennir gan Gyngor y Gweinidogion Pysgodfeydd. Pennir y cyfanswm bob blwyddyn ar gyfer y rhan fwyaf o stociau a phob dwy flynedd ar gyfer rhywogaethau'r dyfnfor. Rhennir y cyfansymiau rhwng gwledydd yr Undeb Ewropeaidd o dan system a elwir yn 'sefydlogrwydd cymharol' lle bydd y cyfansymiau ar gyfer pob stoc o bysgod yn cael eu rhannu rhwng Aelod Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn ôl dyraniad penodedig sy'n seiliedig ar eu dalfeydd hanesyddol. Mae hyn yn cadw cwotâu cenedlaethol yn sefydlog o'u cymharu â'i gilydd, hyd yn oed pan fydd cyfanswm y pysgod y ceir eu dal yn amrywio yn ôl cynhyrchiant y stociau pysgod.[34]
- **Cynlluniau adfer a rheoli amlflwydd**. Nod cynlluniau amlflwydd yn y pen draw yw cyrraedd y Terfyn Cynaliadwy drwy bennu cyfradd ymelwa briodol. Maent yn pennu terfynau cwota ar gyfer y stoc, a seilir y rheini ar dargedau biolegol clir a mesuradwy. Maent hefyd yn pennu terfyn ar gyfer yr amrywiad yn y cyfansymiau o'r naill flwyddyn i'r llall ac yn cynnwys mesurau penodol i gyfyngu ar yr ymdrech pysgota.[35]
- **Cyfyngu ar yr ymdrech pysgota**. Mae hyn yn cyfyngu ar bŵer cwch pysgota ac ar faint o amser y caiff ei dreulio ar y môr. Mynegir ymdrech pysgota yn awr ar ffurf kilowatiau y dydd (kW/dydd) sy'n mesur faint o bŵer a ddefnyddir i yrru'r cwch mewn diwrnod o bysgota.[36]
- **Mesurau gwarchod technegol**. Mae'r rhain yn cynnig dulliau o dargedu gweithgarwch pysgota mewn ffordd fwy dethol, gan sicrhau mai dim ond y pysgod y dymunir iddynt gael eu dal sy'n cael eu dal mewn gwirionedd a chan osgoi gorfod taflu pysgod yn ôl. Ymhlith y mesurau hyn, ceir cyfyngiadau uniongyrchol ar gêr pysgota (e.e. cyfyngu ar faint rhwyllau rhwydi er mwyn sicrhau mai dim ond pysgod aeddfed a ddelir), ardaloedd caeedig a thymhorau pysgota, a chymhellion anuniongyrchol i ddefnyddio mathau mwy dethol o gêr pysgota, megis pennu'r nifer leiaf a'r nifer fwyaf o bysgod o rywogaethau penodol y ceir eu glanio.
- **'Cronfa Sgrapio'.** Mae hon yn cynnig cymhelliant ariannol i bysgotwyr sgrapio cychod pysgota er mwyn lleihau maint fflyd yr Undeb Ewropeaidd am byth**.**

[34] Y Comisiwn Ewropeaidd *The Common Fisheries Policy A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[35] ibid.
[36] Cylchgrawn y Comisiwn Ewropeaidd, *Fisheries and Aquaculture in Europe* Rhif 49, Tachwedd 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

Yn ei Bapur Gwyrdd ar ddiwygio'r PPC, gofynnodd y Comisiwn Ewropeaidd i randdeiliaid sut y gellid cyfyngu ar y capasiti pysgota drwy ddeddfwriaeth.[37] Mae nifer o Aelod Wladwriaethau a rhanddeiliaid o blaid y dull rheoli a ddefnyddir ar hyn o bryd, sef, defnyddio cyfyngiadau ac egwyddor sefydlogrwydd cymharol er mwyn cyfyngu ar nifer y pysgod a leddir.[38]

Serch hynny, soniwyd am nifer o anfanteision sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cyfyngiadau i reoli cyfleoedd pysgota. Canfu adroddiad Tŷ'r Cyffredin, *Progress of the Common Fisheries Policy*:[39]

- Y gall cyfyngiadau arwain at daflu pysgod yn ôl mewn pysgodfeydd cymysg. Os bydd pysgotwr wedi defnyddio'i gwota i gyd ar gyfer un rhywogaeth, caniateir iddo barhau i bysgota am rywogaethau eraill, ond rhaid iddo daflu yn ôl unrhyw bysgod a ddelir nad oes ganddo gwota'n weddill ar eu cyfer. Gall annog 'uchel-raddio' hefyd lle bydd pysgod llai o rywogaethau cwota yn cael eu taflu yn ôl os delir pysgod mwy o'r un rhywogaeth mewn helfeydd dilynol. Wrth annerch Senedd Ewrop ar 9 Mehefin 2010, yr oedd y Comisiynydd Materion Morol a Physgodfeydd o blaid defnyddio cyfyngiadau i gyfyngu ar bysgota ym mhysgodfeydd y cefnfor[40] oherwydd mai ychydig o sgil-ddal sy'n digwydd, ond mae angen mesurau eraill ar gyfer pysgodfeydd cymysg.[41] Mae'r Comisiwn wedi argymell datblygu cynlluniau rheoli pysgodfeydd yn hytrach na chynlluniau rheoli rhywogaethau mewn pysgodfeydd cymysg er mwyn osgoi'r problemau sydd ynghlwm wrth daflu pysgod yn ôl.[42]
- Bod cyfrifo cyfyngiadau'n dibynnu ar asesu pob stoc pysgod yn dda er mwyn sicrhau bod y cyfyngiadau a bennir yn gynaliadwy.
- Bod cyfyngiadau'n drwsgl i'w gorfodi gan fod gofyn cadw cofnod manwl o'r pysgod sy'n cael eu dal a'u glanio gan gychod unigol.

Yn ei hymateb i Bapur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd, dywed Llywodraeth y Cynulliad fod pysgodfeydd y glannau o dan anfantais oherwydd y drefn cwotâu.[43]

---

[37] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[38] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[39] Tŷ'r Arglwyddi, *The Progress of the Common Fisheries Policy*, 22 Gorffennaf 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[40] Rhywogaethau o bysgod sy'n byw uwchben gwaelod y cefnfor.
[41] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Maria Damanaki Member of the European Commission Responsible for Maritime Affairs and Fisheries Managing fleets and conserving resources under the future Common Fisheries Policy. EPP hearing on CFP reform Brussels*, 9 Mehefin 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[42] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[43] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Response to European Commission Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

Mae'n dadlau bod diffyg cwota wedi golygu bod pysgotwyr Cymru yn targedu rhywogaethau nad oes targed ar eu cyfer megis pysgod cregyn (oddeutu 90 y cant o lanfeydd fflyd Cymru). Tuedd mwyafrif pysgotwyr Cymru hefyd yw dal un rhywogaeth o bysgod yn unig. Mae Llywodraeth Cymru wedi sylwi bod y rhywogaethau hyn yn awr yn dechrau dirywio o ran eu nifer.[44] Yn *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru*, dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn poeni y gallai tymhorau cau a chyfyngiadau wneud dal cregyn gleision a chocos yn anos byth ar arfordir Cymru.[45]

Oherwydd y problemau hyn, mae gwyddonwyr wedi argymell erioed y dylid rheoli'r ymdrech pysgota ynghyd â phennu cwotâu, neu yn lle pennu cwotâu.[46] Er i ddiwygio'r PPC yn 2002 gyflwyno ymdrech pysgota'n fesur rheoli, prin fu'r defnydd o hynny hyd yn hyn.[47]

Serch hynny, er, mewn egwyddor, ei bod yn haws glynu wrth drefn i reoli'r ymdrech a'i gorfodi, mae i'r drefn hon ei hanfanteision ei hun sef, yn ôl Tŷ'r Arglwyddi:[48]

- Os defnyddir trefn rheoli'r ymdrech ar ei phen ei hun, mae hynny'n creu cymhelliant i bysgota'n fwy effeithlon, ac i dargedu'r rhywogaethau mwyaf gwerthfawr mewn pysgodfa benodol, ac mae hynny'n gwneud arallgyfeirio'n llai tebygol ac yn dwysáu'r pwysau ar bysgota.
- Nid oes modd bob tro ddiffinio'n glir y berthynas rhwng yr ymdrech pysgota a nifer y pysgod a leddir, sy'n golygu bod rheoli'r ymdrech yn arf eithaf di-fin, yn enwedig mewn pysgodfeydd cymysg.

Yr oedd ambell safbwynt a fynegwyd yng Nghynhadledd La Coruña ynglŷn â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredinol ar 2-3 Mai 2010 a gynhaliwyd rhwng y Comisiwn, yr Aelod Wladwriaethau a Chyrff Anllywodraethol yn dangos mai'r ffordd orau o leihau nifer y pysgod a deflid yn ôl oedd Mesurau Cadwraeth Technegol. Serch hynny, roedd yr Aelod Wladwriaethau a'r sector pysgota'n gwrthwynebu gwaharddiad cyffredinol ar daflu pysgod yn ôl.[49]

Oherwydd y diffyg cefnogaeth i gynllun sgrapio untro dan nawdd arian cyhoeddus, dywedodd y Comisiynydd Materion Morol a Physgodfeydd, Maria Damanaki, mewn Cyfarfod o'r Pwyllgor Pysgodfeydd ar 1 Mehefin 2010 na fyddai rhagor o gychod

---

[44] ibid.
[45] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[46] Cylchgrawn y Comisiwn Ewropeaidd, *Fishing in Europe* No 16 Ebrill 2003 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[47] COM(2007)828 terfynol, *Annual Report from the Commission to the European Parliament and the Council on Member States' efforts during 2006 to achieve a sustainable balance between fishing capacity and fishing opportunities*, 19 Rhagfyr 2007 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[48] Tŷ'r Arglwyddi, *The Progress of the Common Fisheries Policy*, 22 Gorffennaf 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[49] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Orientations of A Coruna conference*, 2-3 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

yn cael eu datgomisiynu bellach drwy ddefnyddio arian y trethdalwr.[50] Nid yw'r rhaglenni i leihau'r fflyd sydd wedi'u mabwysiadu hyd yn hyn ond wedi llwyddo i leihau'r capasiti 2 y cant y flwyddyn, ac mae'r enillion cynhyrchiant yn sgil cynnydd technolegol wedi gwrthbwyso hyn (amcangyfrifir bod hynny rhwng 2 a 3 y cant y flwyddyn).[51]

## *2.2. Blaenoriaethu Amcanion Polisi*

Mae rheoliad fframwaith y PPC fel y mae ar hyn o bryd yn dweud: "The Common Fisheries Policy shall ensure exploitation of living aquatic resources that provides sustainable economic, environmental and social conditions".[52] Mae'r Comisiwn yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r amcanion hyn yn cael eu blaenoriaethu ac nad oes dim dangosyddion clir a allai fesur y llwyddiant. Ailganolbwyntio prif amcanion y PPC yw un o flaenoriaethau allweddol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y diwygio.[53]

Mae'r rhanddeiliaid a fu'n cymryd rhan yn yr ymgynghori ynglŷn â diwygio'r PPC yn cytuno'n gyffredinol mai cynaliadwyedd ecolegol yw sylfaen sector pysgota

hyfyw.[54] Dywed Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru,[55] Cyngor Cynghori Rhanbarthol y Dyfroedd Gogledd-orllewinol a Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Chyrff Anllywodraethol sy'n ymwneud â'r amgylchedd mai cynaliadwyedd ecolegol a ddylai fod yn sail i ddyfodol pysgodfeydd Ewrop. Dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig:[56]

> Only through healthy fish stocks and a healthy marine environment can we hope to achieve economic and social sustainability. At the heart of future reform must be an overriding objective to achieve the sustainable exploitation of fish stocks.

Mae masnachwyr, manwerthwyr a rhai diwydiannau prosesu hefyd yn dweud bod cynaliadwyedd ecolegol yn flaenoriaeth.[57] Mae Cyrff Anllywodraethol ym maes yr Amgylchedd, gan gynnwys y WWF a Greenpeace[58] yn dymuno gweld y PPC yn cael

---

[50] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Maria Damanaki Member of the European Commission Responsible for Fisheries and Maritime Affairs Europe's fisheries: the main issues on the road ahead Meeting of the EP Fisheries Committee with national parliaments Brussels*, 1 Mehefin 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[51] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[52] Rheoliad y Cyngor 2371/2002 *ynglŷn â Chadw ac Ymelwa'n Gynaliadwy ar Adnoddau Pysgodfeydd o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin* OJ L 358, 31.12.02 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[53] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]ibid
[54] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[55] Ar 1 Ebrill 2010, unwyd Pwyllgor Pysgodfeydd De Cymru â Llywodraeth Cymru.
[56] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[57] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[58] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009

ei gysylltu â pholisi ehangach sy'n ymwneud â'r môr, sef *Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol*.[59]

Mae Senedd Ewrop a'r rhan fwyaf o'r diwydiannau dal pysgod (heb gynnwys Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru) o blaid sicrhau cydbwysedd rhwng tair colofn cynaliadwyedd, sef y golofn economaidd, y golofn amgylcheddol a'r golofn gymdeithasol ac yn galw am weld creu swyddi'n amcan ynddo'i hun .[60] Mae rhai Aelod Wladwriaethau hefyd yn galw am amcan newydd, sef, pysgodfeydd sy'n cyflenwi bwyd ac sy'n diogelu'r cyflenwad hwnnw.[61]

Ceir consensws cyffredinol y dylai Terfyn Cynaliadwy fod ymhlith targedau'r PPC.[62] Yn Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn 2002, addawodd yr Undeb Ewropeaidd adfer stociau pysgodfeydd y Gymuned i'w Terfyn Cynaliadwy erbyn 2015.[63] Mae Cyrff Anllywodraethol ym maes yr Amgylchedd yn poeni bod anelu at Derfyn Cynaliadwy ar gyfer stociau pysgodfeydd unigol yn rhy gul ei ffocws; maent yn galw am ystyried effeithiau ehangach pysgota ar ecosystemau'r môr hefyd.[64]

Mae llawer o gyfraniadau, gan gynnwys cyfraniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn galw am ddileu neu leihau nifer y pysgod a deflir yn ôl fel un o dargedau pwysig y diwygio.[65]

## *2.3. Y Fframwaith Penderfynu*

Yn ei Bapur Gwyrdd, dadleua'r Comisiwn:[66]

> The current decision-making framework of the CFP does not distinguish principles from implementation: all decisions are taken in Council at the highest political level. This has resulted in a focus on short-term considerations at the expense of the longer term environmental, economic and social sustainability of European fisheries. Another consequence is that the CFP is regulated through extremely detailed Council regulations that leave very little flexibility in implementing them. This highly unsatisfactory situation is without doubt the main reason why the CFP is criticised by stakeholders.

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Ewrop a Senedd Ewrop yn gyfrifol am benderfyniadau lefel uchel, megis gosod y polisi cyffredinol ac amcanion cynaeafu a phenderfynu beth ddylai'r cydbwysedd fod rhwng cynaliadwyedd cymdeithasol, cynaliadwyedd

---

[59] Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn cynnig fframwaith ar gyfer gweithredu cymunedol ym maes polisi amgylchedd y môr. Ei nod yw sicrhau statws amgylcheddol da i ddŵr moroedd yr Undeb Ewropeaidd erbyn 2020.
[60] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[61] ibid.
[62] ibid.
[63] Datganiad i'r Wasg, *Johannesburg summit*, 3 Medi 2002 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[64] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[65] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[66] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

economaidd a chynaliadwyedd amgylcheddol. Gwneir penderfyniadau manwl ynghylch agweddau cymharol fach ar reoli pysgodfeydd ar y lefel uchel hon hefyd.[67] Awgryma'r Comisiwn fod angen gwahaniaethu rhwng penderfyniadau ynglŷn ag egwyddorion sylfaenol y polisi a goblygiadau technegol neu "feicroreoli".[68]

Mae'r Papur Gwyrdd yn cynnig dau ddewis amgen yn lle'r fframwaith penderfynu presennol:

**1.** Y Comisiwn i wneud rhagor o'r gwaith rheoli manwl ar y polisi mewn cydweithrediad ag Aelod Wladwriaethau a Senedd Ewrop o dan y weithdrefn 'pwyllgoreg'. Byddai hyn yn golygu bod y Comisiwn a phwyllgorau o swyddogion yr Aelod Wladwriaethau'n gwneud penderfyniadau ond y byddai Senedd Ewrop yn craffu arnynt.

**2.** **Rheolaeth ranbarthol** gan Aelod Wladwriaethau. Byddai prif amcanion y PPC megis pysgota o fewn y Terfyn Cynaliadwy, addasu capasiti'r fflyd, neu leihau nifer y pysgod a deflid yn ôl yn cael eu pennu ar lefel yr Undeb Ewropeaidd. Byddai Aelod Wladwriaethau'n cydweithio ar lefel ranbarthol i reoli pysgodfeydd o fewn y safonau hyn.

Yr oedd y rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol mai Cyngor a Senedd Ewrop a ddylai benderfynu beth fydd egwyddorion cyffredinol ac amcanion polisi y PPC, ond y byddai camau mwy manwl yn ymwneud â sut oedd rhoi'r amcanion hyn ar waith yn cael eu cymryd ar sail ranbarthol.[69] Yn ôl Llywodraeth y Deyrnas Unedig.[70]

> This would enable Member States, together with their industries and other stakeholders, to coordinate and develop measures for well-defined fisheries to achieve outcomes in ways that reflect the needs and conditions of those different fisheries within the context of a central fisheries policy framework agreed at EU level.

Mae llawer o randdeiliaid, yn enwedig Cyrff Anllywodraethol a nifer gyfyngedig o Aelod Wladwriaethau, yn cefnogi dirprwyo pwerau gweithredu i'r Comisiwn mewn meysydd penodol, megis mesurau technegol.[71] Yn ôl Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae symud oddi wrth wneud penderfyniadau'n ganolog o'r brig yn beth da ac mae mwyafrif helaeth y rhanddeiliaid yn cefnogi hynny.[72] Mae'r Comisiwn yn

---

[67] POSTnote 357, *EU Fisheries Management*, Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[68] COM(2009)163 terfynol, *Green paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[69] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[70] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[71] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[72] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

disgwyl mai un o fanteision diwygio'r drefn penderfynu fyddai polisi symlach a fyddai'n rhatach i'w roi ar waith.[73]

Mae nifer sylweddol o randdeiliaid yn galw am gyrff rhanbarthol ar wahân i reoli pysgodfeydd ar lefel ranbarthol. Mae'r rhan fwyaf yn rhagweld mai cyrff cynghori fyddai'r rhain yn bennaf i drafod cynigion polisi i'w mabwysiadu gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Mae eraill yn eu rhagweld yn ysgwyddo'r pŵer i roi cynlluniau tymor hir ar waith ynghyd â rhyw faint o bwerau rheoleiddio.[74] Mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn gweld y cyrff rheoli rhanbarthol hyn yn endidau a arweinir gan Aelod Wladwriaethau.[75]Mae Birdlife International yn awgrymu y dylid bod yn ochelgar wrth ddatganoli cyfrifoldeb o'r fath ar unwaith ac yn galw ar i gyfrifoldebau rheoli personol fod yn ddibynnol ar ddangos bod gan y rhanbarth y strwythurau i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy, a bod pawb yn cydymffurfio ac yn gweithredu'n unol â hynny.[76]

Mae un strwythur posibl ar gyfer y rheolaeth ranbarthol hon yn bodoli eisoes yn sef y Cynghorau Cynghori Rhanbarthol. Sefydlwyd saith o'r Cynghorau hyn rhwng mis Tachwedd 2004 a mis Ebrill 2007. Daw dyfroedd pysgota Cymru o fewn cylch gwaith Cyngor Cynghori Rhanbarthol y Dyfroedd Gogledd-orllewinol. Mae hwn yn cynnwys y dyfroedd i'r gorllewin o'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon ac mae'n ymestyn tua'r de i'r Sianel. Yn groes i'r farn a fynegwyd gan lawer o randdeiliaid y dylai cyrff rheoli rhanbarthol wasanaethu'r un ardaloedd â'r Cynghorau Cynghori Rhanbarthol presennol, cred Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr diwydiant pysgota Cymru (Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru) fod y Cynghorau Cynghori Rhanbarthol yn rhy bell i wasanaethu sector y pysgodfeydd y glannau oherwydd bod y dyfroedd pysgota sydd o gwmpas Cymru'n amrywio gymaint. Felly, maent o blaid sefydlu cyrff rheoli rhanbarthol gan Aelod Wladwriaethau ar gyfer dyfroedd sydd o fewn 12mf i'r arfordir.[77] Yn y cyfarfod Rhyng-Seneddol a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2010, dywedodd Aelod Seneddol Ewropeaidd Plaid Genedlaethol yr Alban, Ian Hudghton: "Why not propose a genuinely zonal management regime, by sea basin, and allow fishing nations who have rights in each of our seas to determine the conservation and management rules which best suit the diversity which exists."[78]

---

[73] COM(2009)163 terfynol, *Green paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[74] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[75] ibid.
[76] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[77] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Response to European Commission Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[78] Datganiad i'r Wasg, The FishSite *UK Attacked for Missing Fisheries Talks*, 3 Medi 2002 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

O ran y Cynghorau Cynghori Rhanbarthol, ystyrir yn gyffredinol iddynt lwyddo i hwyluso'r ffordd i randdeiliaid gymryd rhan.[79] Mae mwyafrif y rhanddeiliaid yn galw am gryfhau eu rôl.[80] Cred rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys asiantaethau cadwraeth statudol y Deyrnas Unedig fod angen i'r Cynghorau Cynghori Rhanbarthol ehangu eu haelodaeth a'u cylch gwaith er mwyn iddynt allu gwneud cyfraniad mwy cytbwys.[81]

## *2.4. Cyfrifoldeb y Diwydiant*

Mae'r Papur Gwyrdd yn cydnabod bod y PPC hyd yn hyn wedi mynd ati i reoli pysgodfeydd o'r brig i lawr, ac nid yw hynny wedi cymell y diwydiant pysgota i ymddwyn yn gyfrifol a bod yn atebol dros reoli pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r Comisiwn yn awgrymu mai ychydig iawn a gyflawnir yn sgil diwygio'r PPC nes bod y diwydiant pysgota'n cefnogi amcanion y polisi ac yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ei roi ar waith.[82]

Mae'r Comisiwn yn awgrymu mai'r ffordd o gynnwys y diwydiant yn well yw cynyddu ei gyfrifoldebau a'i hawliau.[83]

Haerai Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai gwneud y drefn rheoli pysgodfeydd yn fwy rhanbarthol yn meithrin gwell cysylltiad â'r diwydiant ac y byddai'r diwydiant wedyn yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb. Yr oedd yn cytuno â'r Comisiwn hefyd y gellid gwella'r drefn rheoli pysgodfeydd petai'r sector sy'n dal pysgod yn rhannu costau rheoli pysgodfeydd â'r Aelod Wladwriaethau, ac, yn gyfnewid am hynny, y byddai pysgotwyr yn cael yr hawl i gymryd rhan wrth bennu mesurau rheoli ac wrth gael sicrwydd mynediad tymor hir. Byddai hyn yn rhoi cyfran go iawn i bysgotwyr o ran sicrhau cadwraeth stociau pysgod yn y tymor hwy.[84]

Cred y Comisiwn y gellid cyflawni hyn hefyd yn sgil hunanreoli gan y diwydiant.[85] Mae rhai Cyrff Cynhyrchwyr eisoes yn dilyn trefn hunanreoli drwy reoli faint o gwota a ddefnyddir gan eu haelodau a thrwy gosbi'r rheini sy'n gorddefnyddio'u cwota unigol ar draul eraill. Yn Nenmarc, Cyrff Cynhyrchwyr sy'n rheoli'r cwotâu pysgota. Mae'r cyfrifoldeb yn cael ei ysgwyddo ar y cyd oherwydd, os delir cwch wrthi yn dal mwy na'i gwota, caeir y bysgodfa i holl aelodau'r Corff Cynhyrchwyr,

---

[79] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Orientations of A Coruna conference*, 2-3 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[80] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[81] Asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig, *Response to the Green Paper on reform of the Common Fisheries Policy* [Cyrchwyd 5 Mehefin 2010]
[82] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[83] ibid.
[84] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[85] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

hyd yn oed os oes gan rai pysgotwyr gwotâu ar ôl o hyd.  Mae hyn yn golygu bod y pysgotwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb ar y cyd.[86] Mae'r Papur Gwyrdd yn cynnig hyn: "These initiatives could be generalised by turning the POs into bodies through which the industry takes responsibility for documentation and quota/effort management."[87]

Mae sawl Aelod Wladwriaeth yn cytuno y dylid rhoi mwy o gyfrifoldeb i Gyrff Cynhyrchwyr dros gadwraeth a rheoli drwy roi'r gallu iddynt roi eu mesurau technegol eu hunain ar waith yn yr ardaloedd hyn. Mae'r diwydiant fymryn yn fwy petrus ynglŷn â hunanreoli, gan ddweud na ddylai hynny arwain at daflu'r cyfrifoldeb am fethiant pysgodfeydd ar ysgwyddau'r pysgotwyr.[88] Mae'r rhan fwyaf o Gyrff Anllywodraethol ym maes yr amgylchedd yn galw am gamau rheoli a gorfodi cadarn os rhoddir cyfrifoldebau hunanreoli i bysgotwyr. [89]

Awgryma'r Comisiwn y gallai diwylliant seiliedig ar ganlyniadau olygu elfen o hunanreoli.[90] Wrth ddilyn y drefn hon, byddai awdurdodau cyhoeddus yn diffinio'r canlyniad yr oeddent yn dymuno'i weld, er enghraifft terfyn uchaf ar gyfer dalfa neu leihau nifer y pysgod a deflid yn ôl, a gwaith y diwydiant fyddai gwneud y penderfyniadau gweithredu mwy manwl a dangos ei fod yn gweithredu'n gyfrifol yn gyfnewid am gael yr hawl i bysgota. Mae'r drefn hunanreoli hon hefyd yn golygu y byddai'n ddyletswydd ar bysgotwyr i gofnodi eu dalfeydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r Cyrff Anllywodraethol ym maes yr amgylchedd, rhai Aelod Wladwriaethau, y diwydiant a Senedd Ewrop yn gyffredinol yn cefnogi rheolaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau.[91] Cred aelodau'r diwydiant pysgota o Gyngor Cynghori Rhanbarthol y Dyfroedd Gogledd-orllewinol y byddai hyn yn symleiddio'r PPC yn sylweddol. Fodd bynnag, maent yn rhybuddio bod angen iddo gael ei roi ar waith ar lefel ddigon cyffredinol er mwyn osgoi sefyllfa lle byddai pysgodfeydd yn cael eu rheoli mewn ffordd gul a chynyddol gymhleth.[92] Mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cytuno nad oes modd cynyddu cyfrifoldeb y diwydiant oni chaiff pob elfen o'r sector pysgota ei hintegreiddio ddigon.[93]

---

[86] Cylchgrawn y Comisiwn Ewropeaidd, *Common Fisheries Policy: laying the foundations for the future* Rhif 44, Awst 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[87] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[88] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[89] Asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig*Response to the Green Paper on reform of the Common Fisheries Policy* [Cyrchwyd 5 Mehefin 2010]
[90] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[91] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[92] NWWRAC, *Opinion on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[93] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

Mae asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig yn galw am gyflwyno'r cyfrifoldebau hyn mewn ffordd flaengar er mwyn rhoi digon o gyfle i'r diwydiant ddatblygu'r strwythurau rheoli angenrheidiol a dangos ei hymrwymiad i reoli cynaliadwy. Maent hefyd yn credu bod angen cyfuno hunanreoli â dyletswydd i fonitro'n effeithiol, ar ffurf cynlluniau rheoli manwl, cynlluniau monitro ac adroddiadau rheolaidd er mwyn dangos cynnydd tuag at gyflawni targedau.[94]

Dywed Cyrff Anllywodraethol y byddai'r diwydiant yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros bysgodfeydd petai dyletswydd ariannol ynghlwm wrth hawliau pysgota.[95] Mae Birdlife International yn haeru hefyd y dylai ariannu gan y Gymuned fod yn amodol ar gydymffurfio â'r PPC a strategaethau morol eraill ac y dylid cosbi Aelod Wladwriaethau a gweithredwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn, a hynny'n benodol drwy roi'r gorau i dalu cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd iddynt.[96]

## *2.5. Datblygu Diwylliant Cydymffurfio*

Mae rheolau a systemau rheoli pysgodfeydd yn berthnasol i bob gweithgarwch pysgota yn nyfroedd yr Undeb Ewropeaidd, ac i'r holl bysgota gan gychod pysgota'r Undeb Ewropeaidd a'i frodorion. Cytunir ar y rheolau ar lefel yr Undeb Ewropeaidd, ond yr Aelod Wladwriaethau sy'n gyfrifol am y mesurau arolygu a gorfodi y mae eu hangen i sicrhau cydymffurfio a rheolau'r PPC. Er mwyn annog gwell cydweithredu a chyfnewid arferion da, sefydlwyd Asiantaeth Rheoli Pysgodfeydd y Gymuned yn 2005 er mwyn trefnu i gydlynu gweithgareddau arolygu a goruchwylio'r Aelod Wladwriaethau.[97] Mae gan y Comisiwn hefyd ei arolygwyr ei hun a gallant ymweld ag awdurdodau'r gwledydd unrhyw bryd i sicrhau eu bod yn rhoi rheolau'r Undeb Ewropeaidd ar waith yn gywir.

Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Tachwedd 2007 gan Lys Archwilwyr yr Undeb Ewropeaidd ac yr oedd hwnnw'n dangos aneffeithiolrwydd system rheoli pysgodfeydd Ewrop, gan ddweud bod rheoli pysgodfeydd wedi bod yn wan yn gyffredinol, nad oedd y cosbau'n atal pobl rhag torri'r rheolau ac nad oedd yr arolygiadau'n digwydd yn ddigon aml i annog pobl i gydymffurfio.[98] Canfuwyd hefyd fod y fframwaith rheoli'n canolbwyntio'n ormodol ar weithgareddau ar y môr.[99] Yn sgil y canfyddiadau hyn daeth y Rheoliad a ganlyn i rym ar 1 Ionawr

---

[94] Asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig, *Response to the Green Paper on reform of the Common Fisheries Policy* [Cyrchwyd 5 Mehefin 2010]
[95] ibid.
[96] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[97] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[98] Llys Archwilwyr yr Undeb Ewropeaidd, Special Report No 7/2007 ar reoli, archwilio a systemau cosbi yng nghyswllt rheolau cadwraeth adnoddau pysgodfeydd y Gymuned, 28 Rhagfyr 2007 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[99] Llys Archwilwyr yr Undeb Ewropeaidd, Special Report No 7/2007 ar reoli, archwilio a systemau cosbi yng nghyswllt rheolau cadwraeth adnoddau pysgodfeydd y Gymuned, 28 Rhagfyr 2007 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

2010: *Rheoliad y Cyngor 1224/2009, ynglŷn â sefydlu system rheoli yn y Gymuned i sicrhau cydymffurfio â rheolau'r polisi pysgodfeydd cyffredin*. Mae'r Rheoliad hwn yn berthnasol i bob cwch yn yr Undeb Ewropeaidd ac i'r holl weithgareddau pysgota yn ei ddyfroedd.[100]

Yn ôl y Rheoliad hwn, rhaid i bob cwch pysgota yn yr Undeb Ewropeaidd sydd dros 12m o hyd gael System Lloeren i Fonitro Cychod er mwyn cofnodi ei leoliad a rhaid iddo gael system cofnodi electronig i gofnodi dalfeydd, glaniadau, trawsgychiadau a gwerthiannau. Gwneir archwiliadau hefyd ar hyd pob pwynt yng nghadwyn y farchnad, o'r rhwyd i'r plât, i sicrhau bod y pysgod wedi'u dal yn gyfreithlon. Er mwyn sicrhau bod rheolau pysgota'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob un o'r aelod wledydd, mae Rheoliadau'r Cyngor 1005/2009 ac 1224/2009 yn rhestru'r gwahanol ffyrdd o dramgwyddo'n ddifrifol yn erbyn rheolau'r pysgodfeydd cyffredin. Gwaith gwledydd yr Undeb Ewropeaidd yw monitro i ba raddau y perchir y rheolau, a chosbi'r sawl sy'n eu torri. Mae'r Rheoliad hefyd yn sôn am sut y byddai system pwyntiau ar gyfer torri rheolau pysgota'n gweithio, system debyg i honno a ddefnyddir ar drwyddedau gyrru pan fydd rhywun yn torri rheolau traffig.

O dan y rheoliad newydd, rhoddir pwerau arolygu estynedig hefyd i'r Comisiwn, gan ganiatáu iddynt gynnal arolygiadau pan fynnont heb roi rhybudd ymlaen llaw i'r Aelod Wladwriaeth dan sylw. Gall y Comisiwn gosbi Aelod Wladwriaethau'n ariannol oni fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y PPC, gan gynnwys dal yn ôl arian a ddyrannwyd iddynt o dan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop. Cryfheir hefyd bwerau'r Comisiwn i gau pysgodfa pan fydd ei chwota wedi'i ddisbyddu.[101]

Croesawyd *Rheoliad y Cyngor 1224/2009* gan y rhan fwyaf o'r Aelod Wladwriaethau a'r Cyrff Anllywodraethol ond mae'r diwydiant yn dal i boeni am sut y rhoddir y rheolau ar waith. Rhai o'r awgrymiadau posibl a gafwyd ynglŷn â sut y gellid gwella'r cydymffurfio a gynigiwyd gan lawer o'r Aelod Wladwriaethau a rhanddeiliaid y diwydiant, oedd cael rheolau PPC symlach a threfn amlflwydd. Awgrymodd y Cyrff Anllywodraethol hefyd y gellid ymestyn technegau rheoli megis VMS a chamerâu teledu â chapsiynau caeedig. [102]

Gwelwyd hefyd y byddai sicrhau system dryloyw yn gymorth i sicrhau cydymffurfiad gan ddangos bod yr un amodau'n berthnasol i bawb ac yn caniatáu i

[100] Rheoliad y Cyngor 1224/2009 *ynglŷn â sefydlu system rheoli yn y Gymuned i sicrhau cydymffurfio â rheolau'r polisi pysgodfeydd cyffredin* OJ L 343, 22.12.2009
[101] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Reform of Common Fisheries Policy control framework – questions and answers*, 31 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[102] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

randdeiliaid sicrhau bod pobl eraill yn cydymffurfio.[103] Cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig *Gynllun Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr* ac mae hwnnw wedi bod ar waith yn llwyr yn y Deyrnas Unedig ers tair blynedd a mwy. Yn ôl Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig:[104]

> Since the introduction of the scheme, representatives of the industry have acknowledged the positive impact it has had on compliance by providing greater transparency, improved cross checking of fish landings data and contribution to reduced levels of black landings.

Yn ôl Cyrff Anllywodraethol, gan gynnwys asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig a Greenpeace, dylai trefniadau ariannu a hawliau mynediad fod yn amodol ar gydymffurfio â'r rheoliadau.[105] Mae hyn yn unol â safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig sef y dylai'r hawl i fanteisio ar arian y Gymuned ddibynnu ar gydymffurfio'n effeithiol â rheolau'r PPC.[106]

Unwaith eto, argymhellir ymagwedd fwy rhanbarthol at annog cydymffurfio. Yn ôl Llywodraeth y Deyrnas Unedig: "A broad centralised system of Community controls is necessary to provide the level enforcement playing field which is currently perceived by many to be lacking." Ond, roedd yn galw am rywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i wahaniaethau rhwng y rhanbarthau ac er mwyn sicrhau bod modd defnyddio adnoddau gorfodi cenedlaethol yn y ffordd fwyaf effeithiol.[107]

Ar ôl pasio *Deddf Mynediad at y Môr a'r Arfordir 2009,* ysgwyddodd Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb llawn dros reoli pysgodfeydd môr yng Nghymru a gorfodi'r drefn, gan ymgymryd â gwaith Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a'r rhan honno o Gyngor Cynghori Rhanbarthol y Dyfroedd Gogledd-orllewinol sy'n ymwneud â Chymru. Dywed Llywodraeth Cymru fod hwn yn gam pwysig er mwyn gwella'r drefn rheoli pysgodfeydd oherwydd bydd yn creu ymagwedd fwy ymarferol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn chwilio am berthynas agosach â'r rhanddeiliaid. Sefydlwyd Parth Cymru sy'n ymestyn y tu hwnt i barth 12 mf yr arfordir i'r llinell ganol rhwng Cymru ac Iwerddon (Gweler map o'r ardal yn Atodiad C). Bydd hyn yn cynnig ymagwedd fwy cyson ac integredig at reoli pysgodfeydd môr yng Nghymru.[108] Mae *Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010* yn berthnasol yn yr amgylchedd tiriogaethol ac mewn dyfroedd tiriogaethol hyd at 12mf.[109] Llywodraeth Cymru sy'n rheoli ardaloedd y

---

[103] Asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig, *Response to the Green Paper on reform of the Common Fisheries Policy* [Cyrchwyd 5 Mehefin 2010]
[104] Defra, *Registration of buyers and sellers of fish* [Gwefan] 13 Mai 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[105] Asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig, *Response to the Green Paper on reform of the Common Fisheries Policy* [Cyrchwyd 5 Mehefin 2010]
[106] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[107] ibid.
[108] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *New Fisheries Management and Marine Enforcement Regime in Wales*, 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[109] Defra, *Conservation of Habitats and Species Regulations 2010* [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

glannau yn y parth 0 i 6 milltir, ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru'n gyfrifol am reoli pysgodfeydd mudol ac aberoedd.[110]

## *2.6. Trin Pysgodfeydd ar Raddfa Fach yn Wahanol*

Yn ôl ei hymateb i Bapur Gwyrdd y Comisiwn, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau ffordd wahanol o ymdrin â Physgota'r Glannau ar Raddfa Fach (o fewn y parth 12mf). Mae'n dweud bod hyn yn arbennig o bwysig i Gymru oherwydd nad yw pysgotwyr Cymru yn gallu pysgota mewn mannau eraill a'u bod wedi'u cyfyngu o ran yr hyn y cânt ei ddal ac ymhle y cânt ei lanio.[111] Mae'n dweud hefyd bod angen i barth arfordir Cymru gael ei gynllun rheoli ei hun oherwydd bod cynifer o barthau dyfroedd Cymru wedi cael eu dynodi'n barthau amgylcheddol, am fod eu hecosystemau'n gymhleth ac oherwydd pwysigrwydd pysgota lleol a chynaliadwy o ran diogelu'r cyflenwad bwyd a thwristiaeth bwyd yng Nghymru. Dadleua Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru fod y Cynghorau Cynghori Rhanbarthol yn rhy bell i wasanaethu sector y glannau.[112] Dywedir mai'r ffordd orau o sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy yng Nghymru yw seilio'r drefn ar yr ecosystem a chael trefn rheoli cwotâu ar wahân i'r rhanbarth ehangach.[113]

Dywed Llywodraeth Cymru fod pysgotwyr ar raddfa fach ar eu helw o sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy gan nad oes modd iddynt bysgota yn unman arall. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at y bygythiad i gynaliadwyedd tymor hir pysgodfeydd Cymru yn sgil nifer o fflydoedd yr Undeb Ewropeaidd y mae ganddynt hawliau hanesyddol yn nyfroedd tiriogaethol Cymru neu yn y dyfroedd sy'n ffinio arnynt. Dywed *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru*:[114]

> Not only do these vessels have more than 10 times the power of a Welsh vessel but are not subject to the same constraints as the indigenous fleet. EU Regulation 2371 provides that neither the Welsh nor UK fisheries management regulations can pertain to these vessels unless their respective Governments agree to them. As this is seldom the case, the best efforts of the Welsh industry or the Welsh Assembly to promote sustainable fishing practices are constantly undermined and the long term effects of this effort are likely to be severe. It is a priority for the Welsh Assembly Government to press this issue in Europe.

Mae llawer o randdeiliaid, gan gynnwys Birdlife International, yn tynnu sylw at y ffaith, fodd bynnag, bod Pysgota'r Glannau ar Raddfa Fach yn cael effaith ar yr adnoddau ac felly na ddylent gael eu heithrio rhag mesurau cadwraeth a rheoli.[115]

---

[110] Llywodraeth Cynulliad Cymru,*Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[111] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Response to European Commission Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[112] Cyngor Pysgodfeydd Môr De Cymru *CFP Green Paper Consultation* [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[113] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Response to European Commission Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[114] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[115] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

Cynhaliwyd gweithdy yng Nghynhadledd La Coruña ym mis Mai 2010 a oedd yn ymwneud yn benodol â Physgota'r Glannau ar Raddfa Fach. Yr oedd y rhai a ddaeth yno'n anghytuno ynglŷn ag a oedd angen trin Pysgota'r Glannau ar Raddfa Fach yn wahanol. Mae gan Wlad Groeg, yr Eidal a Phortiwgal nifer fawr o fflydoedd sy'n pysgota ar raddfa fach ar eu glannau ac maent yn galw am newid y polisi i gynorthwyo a gwarchod cymunedau pysgota'r glannau hynny.[116] Mae rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyrff Anllywodraethol a'r diwydiant, yn meddwl bod amcanion amgylcheddol a chymdeithasol yn cyfiawnhau gwahaniaethu fel hyn. Y rhesymau a roddwyd oedd bod cymunedau pysgota'r glannau'n dibynnu'n drwm ar bysgota am gyflogaeth, bod eu harferion yn tueddu i amharu llai ar yr amgylchedd a'u bod yn defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon. Nid oedd rhanddeiliaid eraill yn credu bod angen gwahaniaethu ar lefel yr Undeb Ewropeaidd er mwyn cyflawni amcanion amgylcheddol cymdeithasol ac economaidd y PPC.[117] Dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig.[118]

> Any further priorities, such as protection of small-scale fishing fleets, should be clearly provided for in the CFP, within the context of maximising benefits overall. However, we need to avoid the risk of subsidising fundamentally uneconomic elements of the industry.

Mae dadl hefyd ynglŷn â sut mae diffinio pysgodfeydd ar raddfa fach. Ymddengys fod consensws bod angen ymagwedd hyblyg a rhanbarthol er mwyn ymdrin â'r amrywiaeth o sefyllfaoedd sy'n codi mewn gwahanol Aelod Wladwriaethau a physgodfeydd. Mae'r rhan fwyaf sy'n cefnogi gwahaniaethu o blaid cael amrywiaeth o feini prawf dethol, gan gynnwys hyd y cwch, cylch gweithredu'r bysgodfa, hyd y daith, foliwm y ddalfa a'r math o gêr pysgota a ddefnyddir.[119] Awgryma nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Cymdeithas Pysgotwyr Cymru y gellid estyn trefniadau rheoli pysgodfeydd y glannau (o fewn 6mf i'r arfordir) hyd at 12mf o'r lan, gan neilltuo'r pysgodfeydd hyn ar y glannau i gychod sy'n pysgota ar raddfa fach.[120] Fodd bynnag, mae pysgotwyr ac Aelod Wladwriaethau eraill yn dadlau y dylid cynnal hawliau hanesyddol treillongau ac na ddylid neilltuo'r hawl i Bysgotwyr ar Raddfa Fach y Glannau'n unig.[121] Yr oedd y farn yn arbennig o ranedig yng Nghynhadledd La Coruña wrth drafod a ddylid eithrio treillongau bychain o'r diffiniad; galwyd ar y Comisiwn i ystyried unwaith eto sefyllfa benodol treillongau sy'n pysgota ar raddfa fach.[122]

---

[116] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Orientations of A Coruna conference*, 2-3 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[117] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Orientations of A Coruna conference*, 2-3 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

[119] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[120] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Response to European Commission Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[121] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[122] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Orientations of A Coruna conference*, 2-3 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

Er mwyn gallu rhoi trefn ar waith ar gyfer pysgodfeydd ar raddfa fach, credid bod angen set benodol o fesurau ariannol a fyddai'n canolbwyntio ar gynnal gweithgareddau'r pysgodfeydd hynny.[123] Un o'r rhanddeiliaid sy'n argymell hyn yw Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru. Yr oedd nifer fawr o'r rhai a gymerodd ran yng nghynhadledd La Coruña yn meddwl y dylai'r mesurau hyn fod yn gysylltiedig â hunandrefnu'r sector, cydreoli, marchnata ardystio, arloesi, effeithlonrwydd tanwydd a diogelwch ac amodau gweithio ar fwrdd y cychod.[124] Fodd bynnag, nid yw Cyrff Anllywodraethol am weld trin pysgodfeydd ar raddfa fach yn wahanol yn arwain at ariannu ar unwaith. Maent am weld darparu cymhellion, megis rhoi blaenoriaeth hawl iddynt ar adnoddau pysgota, i'r rhannau hynny o'r sector sy'n pysgota yn y ffordd fwyaf cynaliadwy o ran yr amgylchedd, y gymdeithas a'r economi.[125] Mae Senedd Ewrop yn galw am roi rhaglenni cymunedol penodol ar waith i gynorthwyo pysgodfeydd ar raddfa fach, a hynny'n benodol i'w cynorthwyo i sicrhau gwell llwybr at farchnadoedd ac i gynyddu gwerth eu cynnyrch.[126]

**Pysgota Hamdden**

Awdurdodau cenedlaethol, megis Asiantaeth yr Amgylchedd yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli pysgota hamdden. O dan y rheoliad rheoli newydd, ni chyfrifir unrhyw bysgod a ddelir gan bysgotwyr hamdden yn erbyn cwota cenedlaethol i Aelod Wladwriaeth. Serch hynny, o 2010 ymlaen, bydd gofyn i Aelod Wladwriaethau werthuso effaith rhai pysgodfeydd hamdden – sef y rheini sy'n cadw'r stociau pysgod hynny sy'n dod o dan un o gynlluniau adfer yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid anfon cofnod o'r dalfeydd at y Comisiwn a fydd wedyn yn gofyn am gyngor annibynnol y Pwyllgor Gwyddonol, Technegol ac Economaidd ar gyfer Pysgodfeydd am gyngor gwyddonol annibynnol ynglŷn ag a yw'r effaith yn sylweddol.[127]

Mae Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru yn galw ar i bysgotwyr hamdden gymryd rhan yn nhrefniadau rheoli ardaloedd y glannau oherwydd bod pysgota hamdden yn creu ei fudd economaidd a chymdeithasol ei hun.[128] Mae Cyrff Anllywodraethol ym maes yr Amgylchedd megis Greenpeace yn galw am ystyried pysgota hamdden wrth bennu cwotâu oherwydd eu bod yn dweud y gall hynny gael effaith sylweddol

[123] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[124] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Orientations of A Coruna conference*, 2-3 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[125] Pew Environment Group, *Comments on the 'Orientations' from the CFP Stakeholder Conference*, 6 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[126] Senedd Ewrop, *Resolution on the Green Paper on the reform of the Common Fisheries Policy*, 2009/2106 (GI), 25 Chwefror 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[127] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Reform of Common Fisheries Policy control framework – questions and answers*, 31 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[128] Cyngor Pysgodfeydd Môr De Cymru, *CFP Green Paper Consultation* [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

ar stociau pysgod a hefyd oherwydd ei bod yn bosibl y sgil-ddelir[129] rhywogaethau'n anfwriadol.[130]

## *2.7. Rheoi Adnoddau Pysgodfeydd*

Mae rhanddeiliaid o blaid rhoi cynlluniau rheoli amlflwydd ar waith, cynlluniau a gyflwynwyd wrth Ddiwygio'r PPC yn 2002.[131] Bydd cynlluniau amlflwydd yn gosod nodau clir ar gyfer rheoli stociau penodol mewn ffordd gynaliadwy, a'r rheini wedi'u seilio ar dargedau biolegol mesuradwy clir, ac yn mapio'r llwybr i'w cyflawni. Maent hefyd yn cyfyngu ar yr amrywiad o'r naill flwyddyn i'r llall yng Nghyfanswm y Ddalfa a Ganiateir ac maent yn tueddu i gyfuno'r Cyfansymiau hyn a chwotâu â'r ymdrech pysgota er mwyn cyfyngu ar nifer y pysgod a leddir. Drwy hyn, bydd y cynlluniau hefyd yn cynnig mwy o sefydlogrwydd i'r diwydiant pysgota gan alluogi gweithredwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol.[132]

Y tro cyntaf i'r Undeb Ewropeaidd roi cynlluniau amlflwydd ar waith oedd yn 2004 pan fabwysiadodd ei gynllun amlflwydd cyntaf er mwyn adfer cegddu'r gogledd a stociau masnachol penodol o'r penfras. Ers hynny, mae cynlluniau amlflwydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer amrywiaeth o stociau yn nyfroedd yr Undeb Ewropeaidd. Erbyn heddiw, mae cynlluniau amlflwydd ar waith ar gyfer 41 y cant o ddalfeydd yn y cefnfor ac ar gyfer 44 o ddalfeydd yn y dyfnfor.[133] Bwriad y Comisiwn yw cyflwyno cynllunio amlflwydd fesul cam ar gyfer yr holl stociau masnachol mawr sy'n addas ar gyfer dull o'r fath.[134] Mae Birdlife International yn galw am gynlluniau rheoli fel 'rhag-amod ar gyfer pysgota'. Maent yn dweud y dylai cynlluniau swyddogaethol fod yn ofyniad gorfodol i bob pysgodfa yn yr Undeb Ewropeaidd.[135]

Fel y dywedwyd eisoes, dywed y Papur Gwyrdd fod sefydlu cwotâu ar gyfer rhywogaethau unigol o bysgod mewn pysgodfeydd cymysg yn arwain at daflu pysgod yn ôl oherwydd os bydd y cwota ar gyfer un rhywogaeth wedi'i ddisbyddu, caniateir i bysgotwyr fwrw ymlaen i bysgota am rywogaethau eraill, ond rhaid iddynt daflu yn ôl unrhyw bysgod a ddaliant nad oes ganddynt gwota ar ôl ar eu cyfer.[136] Yng nghynhadledd La Coruña, trafododd y rhanddeiliaid yr opsiynau o bennu cwotâu amlrywogaeth a phennu cyfraddau'r pysgod a leddir yn ôl cyflwr y

---

[129] Sgil-ddaliad yw organebau'r môr sy'n cael eu dal yn anfwriadol wrth i bysgotwyr bysgota am rywogaethau eraill.
[130] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[131] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[132] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy, A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[133] Cylchgrawn y Comisiwn Ewropeaidd, *Common Fisheries Policy: laying the foundations for the future* Rhif 44, Awst 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[134] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy, A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[135] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[136] COM(2009)163 terfynol, *Green paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

stoc neu yn ôl y grŵp o stociau mwyaf sensitif mewn pysgodfa. Cytunai'r rhanddeiliaid fod pennu cwotâu amlrywogaeth yn syniad da, er ei bod yn broses gymhleth.[137]

Mae Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru ymhlith y rhanddeiliaid hynny sy'n galw am reoli pysgodfeydd drwy seilio'r drefn ar ecosystemau.[138] Nod seilio'r drefn ar ecosystemau fel hyn yw cynnal ecosystemau'r môr yn y cyflwr cynaliadwy sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r manteision cymdeithasol y dymunir eu gweld yn y presennol ac yn y dyfodol. Llwyddir i wneud hyn drwy gyfyngu ar yr effaith a gaiff pysgota ar yr ecosystem a thrwy lywodraethu'n 'rhagofalus' er mwyn sicrhau bod yr ecosystem honno'n parhau mewn cyflwr llesol. Dywed Cyrff Anllywodraethol megis y WWF hefyd y dylid integreiddio'r cynlluniau amlflwydd i'r strategaeth ehangach ar gyfer y môr ac y dylent gyfrannu at wireddu cynlluniau ar gyfer pysgodfeydd ecosystemau rhanbarthol.[139] Dywed rhai Aelod Wladwriaethau y dylai cynlluniau rheoli hefyd gynnwys ystyriaethau cymdeithasol-economaidd yn ogystal â thargedau biolegol.[140]

## *2.8. Sefydlogrwydd Cymharol*

Dyrannu cwotâu pysgota yn ôl egwyddor sefydlogrwydd cymharol yw un o elfennau hynaf y PPC. Mae'r system hon yn rhannu Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir ar gyfer pob stoc pysgod rhwng yr Aelod Wladwriaethau yn ôl dyraniad sefydlog sy'n seiliedig ar eu dalfeydd hanesyddol.[141]

Mae mwyafrif mawr o'r rhanddeiliaid o blaid cadw at yr egwyddor sefydlogrwydd cymharol, gan ddweud ei bod yn cynnig sicrwydd a sefydlogrwydd.[142] Yn ei hanerchiad i Senedd Ewrop ar 9 Mehefin 2010, dywedodd y Comisiynydd Pysgodfeydd a Materion Morol, Maria Damanaki: "relative stability has served a good purpose over the years and we intend to keep it.. You can establish it, just as well, in effort rights as you can in quota rights."[143]

Serch hynny, mae Papur Gwyrdd y Comisiwn yn tynnu sylw at nifer o anfanteision yn y polisi. Dywed, er bod sefydlogrwydd cymharol yn cynnig mecanwaith ar gyfer rhannu cyfleoedd i bysgota rhwng Aelod Wladwriaethau, ei fod hefyd wedi arwain

---

[137] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Orientations of A Coruna conference*, 2-3 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[138] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Response to European Commission Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[139] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[140] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Orientations of A Coruna conference*, 2-3 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[141] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy, A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[142] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[143] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Maria Damanaki Member of the European Commission Responsible for Maritime Affairs and Fisheries Managing fleets and conserving resources under the future Common Fisheries Policy. EPP hearing on CFP reform Brussels*, 9 Mehefin 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

at arferion cymhleth megis Aelod Wladwriaethau'n ffeirio cwotâu. Dywed bod patrymau pysgota wedi newid ers mabwysiadu'r polisi hwnnw fwy na 25 mlynedd yn ôl ac yn sgil hynny, dywedir: "There is now a considerable discrepancy between the quotas allocated to Member States and the actual needs and uses of their fleets."[144]

Mae'r Papur Gwyn yn awgrymu hefyd bod rhoi sefydlogrwydd cymharol ar waith wedi gwneud y PPC yn anhyblyg. Mae'r anhyblygrwydd hwn yn cyfyngu ar allu'r diwydiant pysgota i ddefnyddio'r stociau pysgod sydd ar gael mewn ffordd gynaliadwy ac i fabwysiadu gwahanol strategaethau pysgota. Mae hefyd yn cyfrannu at daflu pysgod yn ôl oherwydd bod llawer o gwotâu cenedlaethol yn pennu eu cyfyngiadau eu hunain ar gyfer taflu pysgod yn ôl.[145]

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid defnyddio hawliau trosglwyddadwy, yn ogystal ag egwyddor sefydlogrwydd cymharol, er mwyn cael gwared ar orgapasiti'r fflyd ac er mwyn sicrhau bod llai o bysgod yn cael eu taflu yn ôl. Bydd hyn yn caniatáu i bysgotwyr unigol neu i Aelod Wladwriaethau drosglwyddo cwotâu pysgota am ddim. Mae'r dull hwn yn dibynnu ar rymoedd y farchnad a fydd yn golygu bod y gweithredwyr mwyaf, mwyaf effeithlon yn prynu'r cwotâu, ac y bydd y pris a delir ganddynt yn cymell gweithredwyr llai effeithlon i roi'r gorau iddi. Bydd hyn yn ei dro'n atgyfnerthu'r fflyd pysgota. Cyfeiria'r Comisiwn at enghreifftiau Denmarc, Sbaen ac Estonia, lle mae cyflwyno hawliau trosglwyddadwy wedi arwain at ostyngiad rhwng 30 a 50 y cant yng nghapasiti'r fflyd. [146]

Ar ôl trafod y mater yng nghynhadledd La Coruña ar 2 Mai 2010, cynigiwyd tri dewis:[147]

**i.** Hawliau Trosglwyddadwy Unigol rhwng gweithredwyr;

**ii.** Hawliau Trosglwyddadwy Unigol rhwng gweithredwyr cenedlaethol, o fewn awdurdodaeth Aelod Wladwriaethau unigol; mae hyn yr un fath â glynu wrth y sefyllfa bresennol.

**iii.** Hawliau Trosglwyddadwy Unigol, gan gynnwys ar lefel ryngwladol.

Mewn gwrandawiad ynglŷn â diwygio'r PPC ar 9 Mehefin 2010, dywedodd y Comisiynydd Pysgodfeydd a Materion Morol, Maria Damanaki: "It is not the intention of the Commission to propose decommissioning of vessels with

---

[144] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[145] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[146] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Maria Damanaki Member of the European Commission Responsible for Maritime Affairs and Fisheries Managing fleets and conserving resources under the future Common Fisheries Policy. EPP hearing on CFP reform Brussels*, 9 Mehefin 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[147] Eckstein, A. *Tough debate ahead on CFP reform*, *Europolitics* [Ar-lein] 3 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

taxpayers' money in the future." Cynigiodd y gallai Hawliau Trosglwyddadwy Unigol felly gynnig ateb i'r pysgotwyr hynny sydd am ymadael â'r sector, gan ddweud; 'they would have the possibility to sell their rights to others in the same Member State.' Fodd bynnag, dywedodd fod y Comisiwn yn bwriadu i'r drefn Hawliau Trosglwyddadwy Unigol barhau, rhwng pysgotwyr o fewn Aelod Wladwriaethau unigol, a hynny ar sail genedlaethol.[148]

Dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bod o blaid sicrhau bod cwotâu pysgota'n fwy trosglwyddadwy.[149] Yn ôl Llywodraeth Cymru, yr oedd ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r Papur Gwyrdd yn canolbwyntio'n bennaf ar bysgota masnachol ar raddfa fawr. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â barn Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai sicrhau bod hawliau pysgota'n fwy trosglwyddadwy yn llesol o ran rheoli fflydoedd masnachol mwy.[150] Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru yn gwrthwynebu'n gryf rhoi hawliau trosglwyddiadau ar waith ym maes Pysgota'r Glannau ar Raddfa Fach. Maent yn dweud eu bod yn poeni:[151]

> …if this approach is unchecked that much of the fishing opportunity ends up in the hands of large commercial operators and smaller producers are priced out of the market. This will prevent diversification and, as current fishers generally are less able to fish for quota species, there will be much greater pressure on non-quota stocks.

Dadleua'r Ffederasiwn; 'tools such as individual transferable quotas (ITQs), and the logic of artisanal fishing are not compatible.'[152] Mae'r safbwyntiau hyn yn gyson â barn mwyafrif mawr o'r rhanddeiliaid sy'n credu nad yw Hawliau Trosglwyddadwy Unigol yn briodol i bysgodfeydd ar raddfa fach.[153] Wrth ymateb i'r pryderon hyn ynglŷn ag effaith Hawliau Trosglwyddadwy Unigol ar y diwydiant pysgota ar raddfa fach, cyhoeddodd y Comisiwn, yn un o gyfarfodydd Senedd Ewrop am ddiwygio'r PPC ar 1 Mehefin 2010, y dylai pysgodfeydd ar raddfa fach gael eu hepgor o system o'r fath ac ymuno â hi ar sail wirfoddol yn unig ...rhaid i hawliau pysgotwyr ar raddfa fach aros o fewn y segment hwnac felly ni cheir eu prynu gan gychod mwy.[154]

---

[148] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Maria Damanaki Member of the European Commission Responsible for Maritime Affairs and Fisheries Managing fleets and conserving resources under the future Common Fisheries Policy. EPP hearing on CFP reform Brussels*, 9 Mehefin 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[149] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[150] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Response to European Commission Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[151] ibid.
[152] WFFA, *Response to the Consultation on the Review of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[153] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[154]

## 2.9. Mynediad at Adnoddau

Yn y dyfroedd hyd at 12mf oddi ar arfordiroedd yr Aelod Wladwriaethau, neilltuir cyfleoedd pysgota i'r fflyd genedlaethol ac i gychod pysgota a chanddynt hawliau hanesyddol i bysgota yno. Yn 2002, adnewyddwyd y cyfyngiadau hyn tan ddiwedd 2012. Mae mwyafrif helaeth y rhanddeiliaid o blaid parhau â'r drefn hon a chred grŵp mawr ohonynt, gan gynnwys Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru, y dylai'r parth 12mf gynnig mynediad ffafriol i gychod pysgota ar raddfa fach.[155] Dywed Cyrff Anllywodraethol yn benodol, ond Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru hefyd, y dylid neilltuo'r parth 12mf ar gyfer gweithgareddau pysgota ar raddfa fach nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd, gweithgareddau sy'n gymdeithasol deg ac sy'n gwneud cyfraniad diwylliannol ac economaidd pwysig i'r cymunedau lleol.[156]

Mae Aelod Wladwriaethau'n gyfrifol am reoli pysgodfeydd o fewn y parth 12mf ond, rhwng 6 a 12mf o'r lan, nid oes ganddynt awdurdodaeth o gwbl dros gychod pysgota o Aelod Wladwriaethau eraill. Geilw Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Birdlife International ar i Aelod Wladwriaethau allu rheoli'r holl weithgarwch pysgota o fewn eu parth 12mf presennol gan osod cyfyngiadau ar bob cwch ar sail gyfartal a heb wahaniaethu.[157] Dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y dylai pysgotwyr a chanddynt yr hawl i bysgota ym mharth 6-12 mf Aelod Wladwriaethau eraill dderbyn y cyfrifoldeb sy'n dod yn sgil yr hawliau hynny.[158]

Yn *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru* dywed Llywodraeth Cymru fod fflydoedd pysgota a chanddynt hawliau hanesyddol i bysgota yn nyfroedd Cymru neu ar y ffin â'r dyfroedd hynny, (a'r rheini'n bennaf o Wlad Belg, Ffrainc ac Iwerddon), yn fygythiad difrifol i gynaliadwyedd tymor hir pysgodfeydd Cymru. Dywed ei bod yn flaenoriaeth ganddynt geisio sicrhau bod modd gorfodi cyfyngiadau ar bob cwch pysgota yn nyfroedd Cymru.[159]

## 2.10. Ystyriaethau'r Farchnad

Sefydlwyd Sefydliad y Farchnad Gyffredin yn 1970 i roi sylw i fuddiannau'r farchnad yng nghyswllt pysgodfeydd ac i sicrhau pris cytbwys ar gyfer pysgod. Yn ôl *Rheoliad y Cyngor Rhif 104/2000 ynglŷn â chyd-drefnu marchnadoedd cynnyrch pysgodfeydd a dyframaeth* ,[160] :

---

[155] WFFA, *Response to the Consultation on the Review of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[156] ibid.
[157] Cyngor Pysgodfeydd Môr De Cymru *CFP Green Paper Consultation* [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[158] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[159] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[160] Rheoliad y Cyngor *ynglŷn â chyd-drefnu marchnadoedd cynnyrch pysgodfeydd a dyframaeth*, OJ L 17, 21.1.2000 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

- **Safonau marchnata cyffredin,** sy'n sicrhau bod ansawdd, labelu a phecynnu pysgod yn gyson ym mhob rhan o'r Undeb Ewropeaidd;
- **Cyrff Cynhyrchwyr,** sef cynhyrchwyr cydweithredol sy'n llunio rhaglenni gweithredu blynyddol ac yn eu rhoi ar waith. Mae'r rhaglenni hyn yn dweud sut y dylid taenu dalfeydd dros y flwyddyn er mwyn sicrhau bod stociau pysgod yn cael eu rheoli mewn ffordd mor gyfrifol ag y bo modd, o ran sicrhau'r elw mwyaf drwy gyflawni gofynion y farchnad a hefyd drwy ddilyn arferion pysgota cynaliadwy;
- **Cronfeydd cefnogi'r farchnad,** sy'n gallu ymyrryd i gynorthwyo pysgotwyr pan fydd prisiau'n disgyn yn rhy isel;
- **Ymyrryd yn y farchnad,** megis tynnu pysgod oddi ar y farchnad pan fydd prisiau'n disgyn yn rhy isel;
- **Cwotâu Tariffiau Annibynnol**, sy'n rhoi cymhorthdal at fewnforio cynnyrch pysgod o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd pan fydd cyflenwad Ewrop yn annigonol ar gyfer y sector prosesu.

Dywed y Papur Gwyrdd mai cyfran fach o'r pris y bydd y defnyddiwr yn ei dalu am y pysgod a gaiff pysgotwyr yr Undeb Ewropeaidd, er gwaethaf strategaethau presennol Sefydliad y Farchnad Gyffredin. Dywed mai'r rhesymau dros hyn yw:

- Bod y sector dal pysgod yn ddarniog ei natur a bod hynny'n atal pysgotwyr rhag marchnata'u cynnyrch mewn ffordd sy'n sicrhau'r elw mwyaf;
- Ei bod yn well gan ddefnyddwyr gael cynnyrch wedi'i brosesu neu wedi'i rewi yn lle cynnyrch ffres sy'n golygu bod cyfran y pysgod yn y pris terfynol yn llai o safbwynt cymharol;
- Bod cyfran uchel iawn o gynnyrch pysgodfeydd yn cael eu mewnforio i farchnad yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ôl y Papur Gwyrdd, mae cyfran isel yr elw a gaiff pysgotwyr yn eu cymell i geisio dal mwy o bysgod ac felly'n eu cymell i orbysgota. Mae costau cynhyrchu uwch yn arwain at lai o elw ac felly'n gwneud pysgotwyr yn fwy dibynnol ar gymorth cyhoeddus.[161] Geilw Cyngor Cynghori Rhanbarthol y Dyfroedd Gogledd-orllewinol am degwch o ran maint yr elw a wneir ar hyd y gadwyn cyflenwi pysgod.[162]

Mae Sefydliad presennol y Farchnad Gyffredin wrthi'n cael ei adolygu. Dywed y Papur Gwyrdd, er bod Sefydliad y Farchnad Gyffredin wedi dod yn llai pwysig yn y blynyddoedd diwethaf, fod lle iddo o hyd fel corff na fyddai'n rhoi cymorth

---

[161] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[162] NWWRAC, *Opinion on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

uniongyrchol i brisiau rhagor ond a fyddai yn lle hynny'n rhoi rhagor o bwyslais ar wella'r ffordd y bydd cynhyrchwyr yn eu trefnu eu hunain.[163]

Byddai'r Comisiwn a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn hoffi gweld Cyrff Cynhyrchwyr yn chwarae mwy o ran wrth gynorthwyo pysgotwyr i addasu'n well i'r galw yn y farchnad ac i reoli'r cyflenwad adnoddau.[164] Yn un o gyfarfodydd Pwyllgor Pysgodfeydd Senedd Ewrop ar 1 Mehefin 2010, cadarnhaodd y Comisiynydd Pysgodfeydd a Materion Morol, Maria Damanaki, fod angen i Sefydliad y Farchnad Gyffredin, ar ôl ei ddiwygio, gynorthwyo cynhyrchwyr i greu gwell cysylltiad rhwng pysgota ag anghenion y farchnad a sicrhau gwerth uwch i'w cynnyrch drwy wella'r marchnata a'r wybodaeth i ddefnyddwyr.[165] Dywed y Comisiwn; "POs can strengthen the bargaining position of individual fishers and contribute to a more viable, and thus more sustainable, industry".[166]

Yn ôl *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru,* mae lle sylweddol i wella hyfywedd economaidd y diwydiant pysgodfeydd yng Nghymru. Yng Nghymru, tuedd cychod bach y glannau yw defnyddio porthladdoedd a harbyrau bychain a hynny o gwmpas arfordir Cymru i gyd. Yn ôl Llywodraeth Cymru:[167]

> This has resulted in the development of systems where shellfish buyers, using vivier lorries (effectively lorries with large water tanks) have strategic collection points where fishermen can bring their catch for onward transport to markets in the UK and abroad. With only a few buyers, the primary producers have little choice to who they sell and the prices paid are reflected in this lack of competition. Importantly, the price paid for live product does not reflect its quality, providing little incentive to fishermen to care for their catch.

Allforir oddeutu 95 y cant o'r pysgod cregyn a ddelir gan fflyd Cymru oherwydd nad oes fawr o alw am bysgod cregyn byw yn y Deyrnas Unedig. Felly, mae pysgotwyr Cymru'n dibynnu'n drwm ar farchnadoedd allforio sy'n agored i newidiadau megis cynnydd ym mhrisiau tanwydd a chyfraddau cyfnewid. Er mwyn clustogi pysgotwyr rhag amrywiadau o'r fath, dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn gweithio gyda physgotwyr i ddatblygu cyfleoedd i brosesu'n lleol a fyddai'n rhoi cyfle i'r diwydiant ddarparu pysgod cregyn wedi'u prosesu, sef yr hyn y mae'r farchnad yn y Deyrnas Unedig yn dymuno'i gael.[168]

Mae *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru* yn sôn am y symudiad sylweddol yn ddiweddar gan lawer o fanwerthwyr yn y Deyrnas Unedig at hyrwyddo cynnyrch pysgodfeydd cynaliadwy lleol gan roi pwyslais cynyddol ar werthu nwyddau yn eu

---

[163] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[164] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[165] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Maria Damanaki Member of the European Commission Responsible for Fisheries and Maritime Affairs Europe's fisheries: the main issues on the road ahead Meeting of the EP Fisheries Committee with national parliaments Brussels*, 1 Mehefin 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[166] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy, A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[167] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[168] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Response to European Commission Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

tymor. Wrth i Lywodraeth Cymru ymateb i Bapur Gwyrdd y Comisiwn, dywed fod manwerthwyr, yn ôl ei hymchwil marchnad, yn barod i dalu mwy am bysgod cynaliadwy neu leol.[169] Cred Llywodraeth Cymru y bydd y newid hwn mewn polisi manwerthu o fudd uniongyrchol i bysgodfeydd môr masnachol yng Nghymru drwy gynnig cyfle i sicrhau amrywiaeth ehangach o rywogaethau yn y farchnad. Mae'n dweud hefyd y bydd symud at gynnyrch o ffynonellau lleol yn gwella ansawdd pysgod a physgod cregyn o Gymru ac yn eu gwneud yn haws eu gwerthu oherwydd y byddai llai o ofyn eu cludo ymhell. "Socio-economic benefits will also be evident for the Welsh aquaculture sector through a greater demand for sustainable products leading to increased production capacity and employment opportunities."[170]

Mae achredu, olrhain tarddiad a chynaliadwyedd, yn ôl llawer o fanwerthwyr, yn bwysig i ddefnyddwyr wrth iddynt benderfynu beth i'w brynu. Cred y rhan fwyaf o randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y byddai cynlluniau ardystio a labelu'n gymorth i sicrhau mwy o dryloywder ac yn fodd o feithrin ymddiriedaeth defnyddwyr.[171] Awgryma asiantaethau cadwraeth statudol y Deyrnas Unedig y gallai arian strwythurol gynorthwyo pysgotwyr ar raddfa fach i dalu am y broses ardystio.[172] Mabwysiadwyd *Rheoliad Rhif 66/2010 ynglŷn ag Ecolabel yr Undeb Ewropeaidd* ar 25 Tachwedd 2009. Mae hwn yn sôn am y rheolau ynglŷn â chynllun ecolabelu gwirfoddol gyda'r nod o hyrwyddo cynnyrch sy'n amharu llai ar yr amgylchedd yn ystod ei gylch oes cyflawn ac o roi gwybod i ddefnyddwyr am yr effaith a gaiff y cynnyrch hwnnw ar yr amgylchedd.[173]

O ran polisi masnach, mae mewnforwyr a phroseswyr yn mynnu bod angen rhyddfrydoli'r drefn mewnforio, gan gynnwys atal mwy o dariffiau mewnforio, er mwyn sicrhau bod cynnyrch pysgodfeydd yn cael eu cyflenwi i'r Undeb Ewropeaidd.[174] Fodd bynnag, mewn dadl yn Senedd Ewrop am benderfyniad drafft ynglŷn â *'Threfniadau mewnforio cynnyrch pysgodfeydd a dyframaeth i'r Undeb Ewropeaidd',* pwysleisiai ASEau fod pysgotwyr yn ei chael yn fwyfwy anodd cystadlu â mewnforion. Mewnforir chwe deg y cant o'r pysgod a fwyteir yn yr Undeb Ewropeaidd o wledydd sydd y tu allan i'r Undeb.[175] Geilw Senedd Ewrop am gynlluniau monitro ac ardystio ar gyfer cynnyrch pysgodfeydd sy'n dod i mewn i farchnad yr Undeb Ewropeaidd er mwyn sicrhau bod amodau marchnad y

---

[169] ibid.
[170] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[171] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[172] Asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig, *Response to the Green Paper on reform of the Common Fisheries Policy* [Cyrchwyd 5 Mehefin 2010]
[173] Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd 66/2010 *ynglyn ag Ecolabel yr UE* OJ L 27, 30.1.2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[174] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[175] Weithiau, gelwir y gwledydd hynny nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd yn drydydd gwledydd.

gymuned yr un fath i bawb.[176] Mae Cyngor Cynghori Rhanbarthol y Dyfroedd Gogledd-orllewinol yn gofyn hefyd a allai'r rheolau sicrhau bod pysgod sy'n dod i mewn i farchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd gael eu dal o dan yr un amodau gweithio cymdeithasol a'r rheini y mae'n ofynnol i bysgotwyr yr Undeb Ewropeaidd gydymffurfio â hwy, er mwyn iddynt allu cystadlu'n fwy teg.[177]

## *2.11. Integreiddio'r PPC yng Nghyd-destun y Polisi Morol Ehangach*

Cyflwynwyd *Polisi Morol Integredig yr Undeb Ewropeaidd* yn 2007. Dyma'r fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli'r holl ryngweithio dynol, amgylcheddol ac economaidd sy'n ymwneud â'r môr.[178]

Colofn amgylcheddol y polisi integredig yw *Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.* Nod y Gyfarwyddeb yw sicrhau 'statws amgylcheddol da' yn nyfroedd moroedd yr Undeb Ewropeaidd erbyn 2020. Yn ôl y Gyfarwyddeb, gwireddir hyn drwy ddatblygu strategaethau morol a nod y rheini fydd gwarchod a chadw amgylchedd y môr, ei atal rhag dirywio, neu, lle bo hynny'n ymarferol, adfer ecosystemau'r môr yn yr ardaloedd lle'r amharwyd arnynt. Mae'n dweud y dylai strategaethau morol seilio'r drefn o reoli gweithgareddau dynol ar ecosystemau. Rhaid i bob polisi morol arall yn yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd a'r PPC gydymffurfio â'r dull ecosystem hwn a'i gefnogi.[179]

Tynnodd y Comisiwn sylw at bwysigrwydd rheoli pysgodfeydd ar sail y dull ecosystem hwn wrth Gyfathrebu â'r Cyngor ac â Senedd Ewrop ym mis Ebrill 2008. Dywedant:[180]

> Fishing is probably the one maritime sector which is most directly dependent on healthy marine ecosystems, and is thus also the sector which gains most from integrated protection of these ecosystems.

O dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, un o'r 11 disgrifydd ansawdd sy'n pennu Statws Amgylcheddol Da yw:

> Populations of all commercially exploited fish and shellfish are within safe biological limits, exhibiting a population age and size distribution that is indicative of a healthy stock.[181]

Felly, mae'r Comisiwn yn nodi mai prif dasg a thasg gyntaf rheoli pysgodfeydd yw gostwng lefelau cyffredinol nes cyrraedd lefelau cynaliadwy. Cyflawni hyn yw nod

---

[176] Senedd Ewrop, Datganiad i'r Wasg, *MEPs debate imports, wages and quality*, 9 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[177] NWWRAC, *Opinion on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[178] Llythyr gan y Comisiwn at y Cyngor a Senedd, *The role of the CFP in implementing an ecosystem approach to marine management*, SEC(2008) 448, Ebrill 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[179] Cyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd 2008/56/CE *establishing a framework for community action in the field of marine environmental policy (Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol)* OJ L 164, 25.6.2008, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[180] Llythyr gan y Comisiwn at y Cyngor a Senedd, *The role of the CFP in implementing an ecosystem approach to marine management*, SEC(2008) 448, Ebrill 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[181] Cyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd 2008/56/CE sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu yn y gymuned ym maes polisi amgylchedd y môr (Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol) OJ L 164, 25.6.2008, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

yr ymrwymiad i ailadeiladu stociau pysgod nes cyrraedd y Terfyn Cynaliadwy erbyn 2015.[182]

Gall y PPC hefyd ddefnyddio mesurau i leihau effaith gweithgareddau pysgota ar amgylchedd y môr. Mae hyn yn cynnwys arfau rheoli megis annog pysgotwyr i ddethol gêr pysgota sy'n lleihau sgil-ddalfeydd ac yn sicrhau bod llai o bysgod yn cael eu taflu yn ôl a chyfyngu ar bysgota neu ei wahardd mewn ardaloedd sy'n werthfawr iawn o ran cadwraeth. Mae Birdlife International yn honni y dylid seilio cynlluniau rheoli amlflwydd ar y dull ecosystem ac o hyn allan y dylent gynnwys camau, dangosyddion ac amserlenni i fynd i'r afael â'r effaith ar rywogaethau a chynefinoedd a dargedir a'r rhai nas targedir.[183]

Yn ôl y Comisiwn, rhaid i fesurau o dan y PPC hefyd gefnogi'r *Gyfarwyddeb Cynefinoedd* wrth iddi geisio cyflawni'i nod, sef sefydlu rhwydwaith o ardaloedd sydd wedi'u gwarchod (Natura 2000)[184] yn y moroedd. Mae'r Comisiwn yn dweud y bydd defnyddio offerynnau'r PPC mewn ffordd gydlynol, er enghraifft, cau pysgodfeydd penodol neu sefydlu parthau 'dim pysgota' yn cael eu rhoi ar waith yn ôl y gofyn er mwyn gwireddu amcanion Natura 2000 ar gyfer safleoedd penodol.[185]

Mae Papur Gwyrdd y Comisiwn yn gofyn hefyd sut y gall y PPC newydd hwyluso addasiadau i newid yn yr hinsawdd a sicrhau nad yw pysgodfeydd yn tanseilio gwytnwch ecosystemau'r môr. Mae'n dweud bod newid yn yr hinsawdd yn bwysau ychwanegol ar ecosystemau'r môr sy'n golygu bod mwy o frys eto inni sicrhau llai o bysgota nes iddo fod yn gynaliadwy. Mae'n galw am ymagwedd integredig at gynllunio gofodol ar gyfer y môr o fewn y Polisi Morol Integredig oherwydd bod pysgodfeydd dal a dyframaeth yn cystadlu fwyfwy â sectorau eraill y môr am ofod. Mae'n nodi hefyd bod cysylltiad clos rhwng y PPC a strategaethau datblygu glannau'r Polisi Morol Integredig gan fod elfen gymdeithasol y PPC yn bwysig i gymunedau'r glannau.[186]

Mae asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig yn awgrymu y dylid defnyddio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn arf hwylus er mwyn rhoi ar waith y drefn rheoli integredig a ragwelir yn y Polisi Morol Integredig a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn golygu archwilio'r rhyngweithio rhwng ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac

---

[182] Llythyr gan y Comisiwn at y Cyngor a Senedd, *The role of the CFP in implementing an ecosystem approach to marine management*, SEC(2008) 448, Ebrill 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[183] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[184] Rhwydwaith o safleoedd sy'n gwarchod cynefinoedd agored i niwed yw Natura 2000. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
[185] Llythyr gan y Comisiwn at y Cyngor a Senedd, *The role of the CFP in implementing an ecosystem approach to marine management*, SEC(2008) 448, Ebrill 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[186] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

economaidd o fewn ecosystem ac yn sgil hynny, cynhyrchir rhestr o faterion y mae angen penderfyniad rheoli yn eu cylch. Yn ôl y Cyrff Anllywodraethol, byddai proses yr Asesiad yn arf defnyddiol iawn i ddatrys gwrthdaro rhwng pysgodfeydd, buddiannau bioamrywiaeth a defnyddwyr eraill y môr.[187]

O dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, mae gofyn i bob Aelod Wladwriaeth ddatblygu strategaeth forol ar gyfer dyfroedd ei moroedd. Mae'r Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i'r dull ecosystem drwy gyfrwng *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.* Mae hon yn cyflwyno system cynllunio ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer y môr a'i nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng effeithiau ac amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gweithgareddau morol mewn ffordd sy'n hybu datblygu cynaliadwy. Mae'n cynnwys pwerau newydd ac ystod o fesurau penodol i warchod a rheoli dyfroedd y Deyrnas Unedig ac i gynorthwyo i sicrhau Statws Amgylcheddol Da. Mae rhwydwaith o Barthau Cadwraeth Morol wrthi'n cael ei greu i sicrhau amcanion *Cyfarwyddyd y Cynefinoedd.* Mae *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* yn gwneud Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am ddynodi Parthau Cadwraeth Môr yn nyfroedd tiriogaeth Cymru.[188]

Cyhoeddwyd *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru* yn 2008 ac mae'n cynnwys ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli a datblygu pysgodfeydd mewn modd integredig yng Nghymru. Mae'n argymell system seiliedig ar ecosystemau ar gyfer rheoli pysgodfeydd, gan bwysleisio y bydd rheoli'r diwydiant pysgota mewn ffordd gynaliadwy o fudd i agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymunedau'r glannau.[189] Mae Cymru'n gyfrifol am ddatblygu cynllun neu gynlluniau morol ar gyfer ardal forol Cymru. Bwriad Llywodraeth Cymru yw ymgynghori'n ddiweddarach yn 2010 ynglŷn â dewisiadau o ran cynllunio gofodol ar gyfer dyfroedd Cymru.[190]

## *2.12. Ymchwil a Datblygu*

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwybodaeth wyddonol a data yn ei Bapur Gwyrdd.[191] Mae polisi pysgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn cefnogi gwaith ymchwil ar bysgodfeydd drwy ariannu rhaglenni cenedlaethol i gasglu data amdanynt a thrwy ariannu prosiectau ymchwil datblygedig ar lefel yr Undeb Ewropeaidd. Yn ystod 2007-2008, darparwyd cyfanswm o €32 miliwn ar

---

[187] Asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig, *Response to the Green Paper on reform of the Common Fisheries Policy* [Cyrchwyd 5 Mehefin 2010]
[188] Papur Ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau 09/025, *Marine and Coastal Access Bill [HL]*, Gorffennaf 2009.
[189] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[190] Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, *http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/marinefisheries/accessact/?skip=1&lang=cy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[191] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

gyfer 11 o brosiectau ar lefel yr Undeb Ewropeaidd a oedd yn ymwneud â physgodfeydd a dyframaeth.[192]

Caiff y Comisiwn gyngor gwyddonol am bysgodfeydd gan y Pwyllgor Gwyddonol Technegol ac Economaidd ar gyfer Pysgodfeydd. Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys gwyddonwyr ac arbenigwyr annibynnol sy'n cynrychioli ystod eang o safbwyntiau. Mae'r Pwyllgor yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gyfer y Comisiwn. Defnyddir hyn yn sail ar gyfer sefydlu cyfansymiau'r dalfeydd a ganiateir a'r cwotâu. O ran materion biolegol, mae'r Pwyllgor yn dibynnu ar gyngor a gaiff gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Moroedd. Mae'r Cyngor hwn yn dod â gwyddonwyr môr at ei gilydd o 20 o wledydd i gydlynu'r ymchwil i ecosystemau Gogledd yr Iwerydd ac ardaloedd cyfagos. Dyma'r prif gorff sy'n rhoi cyngor gwyddonol i lywodraethau a sefydliadau rhanbarthol sy'n gyfrifol am reoli pysgodfeydd yn yr ardaloedd hyn.[193]

Mae asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig a'r WWF ymhlith llawer o randdeiliaid sy'n galw am fwy o ymchwil i effeithiau pysgota ar ecosystemau'r môr yn gyffredinol er mwyn rheoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau. Maent yn dadlau bod hyn yn bwysig er mwyn gallu rhoi *Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol* ar waith.[194] Mae Birdlife International yn gofyn am gyhoeddi gwybodaeth am bob glaniad gan bob cwch. Maent yn dweud y bydd hyn yn gymorth i'r Cynghorau Cynghori Rhanbarthol asesu effaith gweithgareddau eraill megis ffermydd gwynt, ar bysgodfeydd.[195] Mae Senedd Ewrop yn credu y dylai ymchwil gwyddonol ystyried agweddau cymdeithasol ac economaidd y gweithgarwch pysgota yn ogystal â'r agweddau sy'n effeithio ar yr amgylchedd.[196]

Mae'r Comisiwn yn pwysleisio pwysigrwydd gwella'r cyfathrebu rhwng gwyddonwyr, llunwyr polisïau a rhanddeiliaid yn ei Bapur Gwyrdd[197] Yn ôl Birdlife International;[198]

> … the biggest source of non-compliance is generally rejection of scientific advice. Improving scientific support will improve compliance, as will greater opportunity for fishermen to collect data and input their own expertise.

Mae Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru ymhlith cynrychiolwyr y diwydiant sy'n galw ar i bysgotwyr fod yn rhan o'r broses ymchwil er mwyn cael gwybodaeth

---

[192] Ffeithlen y Comisiwn Ewropeaidd, *Fisheries Research*, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[193] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy, A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[194] Asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig, *Response to the Green Paper on reform of the Common Fisheries Policy* [Cyrchwyd 5 Mehefin 2010]
[195] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[196] Senedd Ewrop, *Resolution on the Green Paper on the reform of the Common Fisheries Policy*, 2009/2106 (GI), 25 Chwefror 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[197] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

berthnasol a chywir.[199] Awgrymodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y dylai'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin adeiladu ar gynlluniau megis Partneriaethau Gwyddoniaeth Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig i hybu gwell ymgysylltu rhwng gwyddonwyr a'r diwydiant. Maent yn credu bod lle sylweddol i gynnwys pysgotwyr fwy wrth gasglu data ac wrth wneud mathau eraill o ymchwil.[200] Daw un enghraifft o hyn o brosiect Partneriaeth Gwyddoniaeth Pysgodfeydd yn Ne Cymru lle bu pysgotwyr a gwyddonwyr yn cydweithio i asesu'r effaith a gafodd newid siâp rhwyllau rhwydi ar faint o ddraenogiaid rhy fach a oedd yn cael eu dal. Canfuwyd fod llai o ddraenogiaid rhy fach yn cael eu dal wrth ddefnyddio rhwyllau sgwâr newydd.[201] Haerai Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd y byddai rhanbartholi'r PPC yn gymorth i wyddonwyr, llunwyr polisïau, diwydiant a rhanddeiliaid allweddol eraill ymgysylltu'n effeithiol.[202]

Mewn cyfarfod Rhyng-Seneddol ar 1 Mehefin 2010, cytunodd ASEau ei bod yn rhaid ariannu ymchwil yn iawn oherwydd y gallai arloesi ychwanegu 25 y cant at elw pysgotwyr ond y gallai'r buddsoddiad gostio 25 y cant iddynt.[203] Dywed asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig y bydd ariannu ar lefel Aelod Wladwriaeth yn arwain at ganolbwyntio gormod ar stociau pysgod sydd o'r budd economaidd mwyaf. Maent felly'n galw am ariannu cymunedol er mwyn sicrhau dysgl fwy gwastad.[204]

Mae *Polisi Pysgodfeydd Cymru* yn sôn am y bylchau gwybodaeth yn sector pysgodfeydd Cymru y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi. Dywed Llywodraeth Cymru y bydd rhyngweithio rhwng llunwyr polisïau, rhanddeiliaid a'r gymuned ymchwil yn golygu bod modd sicrhau gwaith ymchwil penodol a all gynorthwyo i sicrhau bod pysgodfeydd Cymru'n gynaliadwy.[205]

## *2.13. Polisi Strwythurol*

Daw cymorth ariannol i bysgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd gan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop. Mae'r Gronfa hon yn darparu arian ar gyfer y diwydiant pysgota ac i gymunedau'r glannau i'w cynorthwyo i ymaddasu i amgylchiadau yn y sector wrth iddynt newid ac i ddod yn gadarn o ran eu heconomi ac yn ecolegol gynaliadwy. Mae ar gael i bob sector o'r diwydiant, gan gynnwys pysgota yn y môr

---

[198] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[199] Cyngor Pysgodfeydd Môr De Cymru, *CFP Green Paper Consultation* [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[200] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[201] Cefas, *Final report: Bristol Channel bass selectivity*, 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[202] Llywodraeth y Deyrnas Unedig ,*Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[203] Senedd Ewrop, Datganiad i'r Wasg, *Fisheries reform: firm backing for research but differing views on quotas*, 2 Mehefin 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[204] Asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig, *Response to the Green Paper on reform of the Common Fisheries Policy* [Cyrchwyd 5 Mehefin 2010]
[205] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

ac ar y glannau, dyframaeth a phrosesu a marchnata cynnyrch pysgodfeydd. Y dyraniad cyffredinol ar gyfer Cronfa Pysgodfeydd Ewrop 2007-2013 yw €4.3 biliwn yn ôl prisiau heddiw.[206] Ceir y rheolau manwl ar gyfer gweithredu Cronfa Pysgodfeydd Ewrop yn *Rheoliad y Comisiwn Rhif 498/2007 ynglŷn â Chronfa Pysgodfeydd Ewrop.*[207]

Mae gan y Gronfa bresennol bump o feysydd blaenoriaeth i'w hariannu:

1. **Addasu'r fflyd** (e.e. i gynorthwyo i sgrapio cychod pysgota)
2. **Dyframaethu, prosesu a marchnata, pysgota môr a physgota'r glannau** (e.e. i gynorthwyo pysgotwyr i symud at ddulliau cynhyrchu sy'n well er lles yr amgylchedd)
3. **Mesurau sy'n dwyn budd cyffredin** (e.e. gwella dulliau olrhain tarddiad cynnyrch neu labelu)
4. **Datblygu ardaloedd pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy** (e.e. i gynorthwyo'r economi leol i arallgyfeirio)
5. **Cymorth technegol** i gynorthwyo i weinyddu'r gronfa.[208]

Caniateir arian ar sail rhaglenni gweithredol a lunnir gan Aelod Wladwriaethau. Rhaid i'r rhain ddweud sut y bydd yr Aelod Wladwriaeth yn defnyddio arian Cronfa Pysgodfeydd Ewrop i roi amcanion y PPC ar waith. Ym mis Gorffennaf 2008, mabwysiadodd Cyngor Ewrop rywfaint o randdirymiadau dros dro i reolau'r Gronfa er mwyn ceisio ychwanegu ailstrwythuro'r fflyd er mwyn ymateb i'r 'argyfwng tanwydd'. Bydd y rhain yn para tan fis Gorffennaf 2010. [209]

Dywed y Papur Gwyrdd, er bod diwygio'r PPC yn 2002 wedi dileu rhywfaint o'r cymorth ariannol a gyfrannodd yn uniongyrchol at orgapasiti a gorfuddsoddi, mai ychydig o reolaeth gyffredinol sydd ar ôl dros y ffordd y gall Aelod Wladwriaethau wario cronfeydd eu pysgodfeydd. Geilw'r Papur Gwyrdd am gysylltiad mwy clos o lawer rhwng ariannu cyhoeddus ac amcanion y PPC, yn benodol er mwyn cynorthwyo i roi'r Polisi Morol Integredig ar waith ac i gynorthwyo'r diwydiant i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.[210]

Dadleuai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod Cronfa Pysgodfeydd Ewrop fel y mae ar hyn o bryd yn rhy eang a bod gormod o ymyriadau a'r rheini'n anghyson â'u hamcanion tymor hwy i symud at system sy'n fwy seiliedig ar y farchnad. Felly, galwodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig am ddileu cymorthdaliadau parhaol i

---

[206] Ffeithlen y Comisiwn Ewropeaidd, *European Fisheries Fund*, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[207] *Ceir y rheolau manwl ar gyfer gweithredu Cronfa Pysgodfeydd Ewrop yn Rheoliad y Cyngor Rhif* 1198/2006 ynglŷn â *Chronfa Pysgodfeydd Ewrop* OJ L 120, 10.05.2007 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010].
[208] Ffeithlen y Comisiwn Ewropeaidd *European Fisheries Fund*, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[209] Ffeithlen y Comisiwn Ewropeaidd *European Fisheries Fund*, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[210] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

bysgodfeydd fesul tipyn.[211] Cytuna asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig a Birdlife International â hyn. Maent yn dadlau y bydd stociau pysgod mwy cynaliadwy'n dod â mwy o elw i'r diwydiant ac y dylent olygu y gall weithredu heb gymorthdaliadau.[212] Cytuna Senedd Ewrop y dylai'r fflyd pysgota allu ei hariannu ei hun yn y tymor hwy, ond mae'n pwysleisio nad oes ond modd cyflawni hyn o dan PPC sy'n cynnwys model addas ar gyfer rheoli pysgodfeydd.[213]

Geilw Birdlife International ar i Gronfa Pysgodfeydd Ewrop annog pysgota sy'n sensitif i'r amgylchedd. Mae'n dweud bod angen i'r PPC gydymffurfio â *Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol* ac mae'n galw ar i Gronfa Pysgodfeydd Ewrop gefnogi hyn, er enghraifft drwy addasu pysgota ar gyfer rhwydweithiau Natura 2000 ac addasu'r drefn rheoli i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd ac effaith hynny ar nifer y stociau pysgod a'u dosbarthiad. Credant y gellid gwneud hyn drwy gyfeirio arian Cronfa Pysgodfeydd Ewrop er mwyn galluogi pysgodfeydd i gyrraedd targedau'r cynlluniau amlflwydd, gan gynnwys ymaddasu i gêr pysgota mwy dethol, rhoi mesurau lliniaru penodol ar waith a mesurau i leihau nifer y pysgod a deflir yn ôl.[214] Geilw asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig am arian i ymgymryd ag asesiadau amgylcheddol, gan ddadlau y bydd y rhain o gymorth i ddatblygu cynlluniau rheoli pysgodfeydd.[215]

Mae'r WWF ac asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig hefyd yn cefnogi gwneud cydymffurfio â'r PPC ac amcanion polisi morol ehangach yn amod ar gyfer ariannu. Maent yn dweud y dylai hyn fod yn berthnasol i Aelod Wladwriaethau ac i weithredwyr unigol.[216]

Ar gyfer y cyfnod 2007-2013, dyrannwyd €138 miliwn o Gronfa Pysgodfeydd Ewrop i'r Deyrnas Unedig. Cyfeirir traean o'r arian hwn at ranbarthau 'cydgyfeirio', y mae eu heconomi'n wannach na chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd.[217] Yr ardaloedd hyn yw Cernyw ac Ynysoedd Scilly, Gorllewin Cymru a'r cymoedd a'r Ucheldiroedd a'r Ynysoedd. Mae *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru* yn disgrifio strategaeth dymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli a datblygu pysgodfeydd yng Nghymru. Cronfa Pysgodfeydd Ewrop yw un o'r arfau polisi a fydd yn cynorthwyo i roi'r strategaeth hon ar waith.

---

[211] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[212] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[213] Senedd Ewrop, *Resolution on the Green Paper on the Reform of the Common Fisheries Policy*, 2009/2106 (GI), 25 Chwefror 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[214] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[215] Asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig, *Response to the Green Paper on Reform of the Common Fisheries Policy* [Cyrchwyd 5 Mehefin 2010]
[216] Birdlife International, *Response to the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy*, Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[217] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Annex to the Second Annual Report on Implementation of the European Fisheries Fund (2008)* SEC2008 1714, 21 Rhagfyr [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

Yn ôl *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru*, mae Llywodraeth Cymru am weld cefnogaeth i ddatblygu gêr pysgota a dulliau pysgota mwy cynaliadwy er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol ar gynefinoedd a thaflu pysgod rhy fach a physgod sydd heb eu targedu yn ôl. Maent yn galw hefyd am fwy o fuddsoddi mewn hyfforddi sgiliau, yn enwedig er mwyn annog pobl ifanc i fynd i'r diwydiant pysgota môr masnachol.[218] Mae Senedd Ewrop hefyd yn galw am hybu hyfforddiant i bysgotwyr a chapteiniaid, gan gynnwys cynlluniau addysgu yn yr 'arferion gorau' ac elfennau sylfaenol ecoleg y môr.[219]

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi  nifer o 'ddiffygion yn y seilwaith' hefyd y byddent yn hoffi defnyddio Cronfa Pysgodfeydd Ewrop i fynd i'r afael â hwy. Dywedant:[220]

> Wales is probably at a disadvantage as it doesn't have any recognisable internal market structure. (...) There is also effectively no added value processing or infrastructure in Wales, further exacerbating the ability of fishermen to obtain the best returns for their potentially valuable raw materials.

Ar 7 Mehefin, agorwyd busnes newydd, Welsh Seafoods Ltd, i werthu a phrosesu pysgod yng Nghymru. Mae hwn yn cefnogi cyflenwi pysgod Cymru i fwytai lleol ac fe'i cyllidwyd yn rhannol drwy Gronfa Pysgodfeydd Ewrop.[221] Dywed Llywodraeth Cymru y bydd prosiectau fel hyn sy'n darparu marchnadoedd newydd a seilwaith prosesu pysgod yng Nghymru yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol.[222]

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn argymell buddsoddi yn y fflyd. Mae hyn yn unol â safbwynt Senedd Ewrop sy'n argymell parhau i ddarparu arian Cronfa Pysgodfeydd Ewrop i gefnogi adnewyddu'r fflyd a'i foderneiddio, yn enwedig o ran pysgodfeydd ar raddfa fach.[223] Mae Adran 2.6 y papur hwn yn ymwneud yn fwy manwl ag ariannu pysgodfeydd ar raddfa fach.

## *2.14. Dimensiwn Allanol*

Daw cyfran sylweddol o'r pysgod a ddelir gan fflyd yr Undeb Ewropeaidd o'r tu allan i ddyfroedd Ewrop. Yn ôl Canllawiau'r Comisiwn i'r PPC, delir oddeutu 40 y cant o ddalfeydd yr Undeb Ewropeaidd (yn ôl pwysau) o dan gytundebau pysgota gyda gwledydd y tu allan i'r Undeb, ac mae 20 y cant arall yn cael eu dal yn y

---

218 Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
219 Senedd Ewrop, *Resolution on the Green Paper on the reform of the Common Fisheries Policy*, 2009/2106 (GI), 25 Chwefror 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
220 Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
221 Datganiad i'r Wasg, Llywodraeth Cynulliad Cymru *http://new.wales.gov.uk/newsroom/environmentandcountryside/2010/100607welshseafoods/?skip=1&lang=cy* 7 Mehefin 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
222 Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
223 Senedd Ewrop, *Resolution on the Green Paper on the reform of the Common Fisheries Policy*, 2009/2106 (GI), 25 Chwefror 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

moroedd mawr, a hynny'n bennaf mewn rhanbarthau sydd o dan ofal y Cyrff Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol.[224]

## Cytundebau Pysgota

Mae gan yr Undeb Ewropeaidd ddau fath o gytundeb pysgota gyda gwledydd o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd - Cytundebau Partneriaeth Pysgodfeydd a Chytundebau'r Gogledd. Bwriad y Cytundebau Partneriaeth Pysgodfeydd yw rhoi cymorth ariannol a thechnegol i wledydd nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd i ddatblygu eu diwydiant pysgota cenedlaethol ar sail gynaliadwy yn gyfnewid am hawliau pysgota i gychod yr Undeb Ewropeaidd. Yna, caniateir i fflydoedd yr Undeb Ewropeaidd bysgota am stociau yr ystyrir eu bod mewn cyflwr da ac nad yw fflyd y wlad ei hun yn ymelwa'n llwyr arnynt. Ar hyn o bryd, mae 16 Cytundeb Partneriaeth Pysgota ar waith.[225] Mae Cytundebau'r Gogledd yn sicrhau bod gweithgareddau pysgota'r Undeb Ewropeaidd yn cael eu cydlynu â rhai Norwy, Gwlad yr Iâ ac Ynysoedd y Ffaro. Mae llawer o'r stociau pysgod yn yr ardaloedd hyn yn cael eu rheoli ar y cyd a chyfnewidir cwotâu i sicrhau nad ydynt yn cael eu gwastraffu.[226]

## Cyrff Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol

Sefydliadau rhyngwladol yw Cyrff Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol sy'n rheoli adnoddau pysgodfeydd mewn dyfroedd rhyngwladol. Er mai ymgynghorol o ran natur yw rhai o'r rhain, mae gan y rhan fwyaf ohonynt bwerau rheoli. Tueddant i wneud tri math o benderfyniad rheoleiddio: penderfynu ynglŷn â therfynau pysgota (pennu Cyfanswm y Dalfeydd a Ganiateir; mesurau technegol (gêr pysgota a ganiateir); a mesurau rheoli (monitro a goruchwylio gweithgareddau pysgota). Mae'r penderfyniadau hyn yn clymu eu haelodau, ac, yn achos yr Undeb Ewropeaidd, rhaid eu rhoi ar waith drwy gyfraith Ewrop.[227]

Mae pysgota anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio yn broblem aruthrol mewn dyfroedd rhyngwladol. Sefydlwyd Cyrff Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol er mwyn ceisio rheoli'r pysgota yn yr ardaloedd hyn ond mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop yn cyfaddef y credir yn gyffredinol iddynt fethu â rheoli pysgota anghyfreithlon. Mae'r Pysgota Anghyfreithlon, Heb ei Gofnodi a Heb ei Reoleiddio yn bygwth cadwraeth a chynaliadwyedd amgylchedd y môr mewn dyfroedd rhyngwladol.[228] Ymateb yr Undeb Ewropeaidd i hyn fu ceisio sicrhau bod tryloywder o ran y cyflenwad drwy gadwyn pysgota'r pysgodfeydd er mwyn gallu cau pysgotwyr anghyfreithlon allan o'r farchnad.[229] Mae Senedd Ewrop

---

[224] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy, A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[225] Ffeithlen y Comisiwn Ewropeaidd, *Fisheries Partnership Agreements*, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[226] Ffeithlen y Comisiwn Ewropeaidd, *Northern agreements*, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[227] Ffeithlen y Comisiwn Ewropeaidd, *Regional Fisheries Management Organisations*, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[228] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Illegal fishing (IUU)*, [Ar-lein] 2-3 Mai 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[229] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy, A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

yn pwysleisio manteision hyn i economi pysgota'r Undeb Ewropeaidd oherwydd y bydd yn gymorth i ddileu cystadlu annheg gan sicrhau bod y pysgod sy'n mynd i mewn i farchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu dal o dan yr un amodau cymdeithasol ag y mae pysgotwyr o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn gorfod cydymffurfio â hwy.[230]

Daeth rheoliad newydd i rym ar 1 Ionawr 2010, sef *Rheoliad y Cyngor i sefydlu system Gymunedol i rwystro, atal a dileu pysgota anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio.* [231] Mae hyn yn sicrhau bod holl gynnyrch pysgodfeydd a fasnechir o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu hardystio a bod modd olrhain eu tarddiad yn llwyr. Mae cynllun ardystio cynhwysfawr ar gyfer dalfeydd yn sicrhau bod modd olrhain tarddiad y pysgod a ddelir, a leddir, a ddygir i'r farchnad ac a werthir, a hynny ar hyd pob cam o'r broses - o'r rhwyd i'r plât.[232]

Yn ôl y Papur Gwyrdd, dylai prif amcan gweithgareddau pysgota o dan ddimensiwn allanol y PPC fod a wnelo ag estyn egwyddorion pysgota cynaliadwy a chyfrifol yn rhyngwladol. Yr oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cefnogi hyn ac yn dweud y dylai'r PPC hybu llywodraethu gwell dros bysgodfeydd byd-eang er mwyn sicrhau diogelwch bwyd a sicrhau bod modd olrhain ei darddiad.[233]

## *2.15. Dyframaeth*

Nid oes ond ychydig o sôn am ddyframaeth ym mhapur Gwyrdd y Comisiwn. Serch hynny, mae'r Comisiwn yn tynnu sylw at y ffaith bod dyframaeth yn cyfrannu'n gynyddol at gynhyrchu dyfrfwyd yn fyd eang a'i fod yn weithgarwch economaidd o bwys mewn llawer o ranbarth arfordirol a chyfandirol.[234] Yn Ewrop, dyframaeth sy'n gyfrifol am bron 20 y cant o'r pysgod a gynhyrchir ac mae'n cyflogi'n uniongyrchol oddeutu 65,000 o bobl.[235]

Mae'r Comisiwn yn poeni, fodd bynnag, er bod y diwydiant dyframaeth byd-eang yn ffynnu drwyddo draw, bod cynhyrchiant yr Undeb Ewropeaidd wedi aros yn llonydd 2000. Mae'n beio hyn ar safonau amgylcheddol a safonau ansawdd uchel yr Undeb Ewropeaidd sy'n golygu ei bod yn anodd cystadlu â chynhyrchwyr gwledydd o'r tu allan o ran prisiau.[236]

---

[230] Senedd Ewrop, *Resolution on the Green Paper on the reform of the Common Fisheries Policy*, 2009/2106 (GI), 25 Chwefror 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[231] Rheoliad y Cyngor 1005/2008 *ynglŷn â sefydlu system yn y Gymuned i rwystro, atal a dileu pysgota anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio.* OJ L 286, 29.10.2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[232] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Fisheries: Entry into force of new system to better control fisheries and fight against illegal fishing*, 31 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[233] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[234] COM(2009)163 terfynol, *Green Paper: Reform of the Common Fisheries Policy*, 22 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[235] Ffeithlen y Comisiwn Ewropeaidd, *Aquaculture*, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[236] Y Comisiwn Ewropeaidd, *The Common Fisheries Policy A User's Guide*, Rhagfyr 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

Yn 2009, cyhoeddodd y Comisiwn '*Building a sustainable future for aquaculture*'.[237] Mae'n amlinellu strategaeth newydd a'i nod yw:

- Cynorthwyo'r sector i ddod yn fwy **cystadleuol** drwy roi cefnogaeth gref i ymchwil a datblygu, gwell cynllunio gofodol mewn ardaloedd arfordirol a basnau afonydd, a rhoi cymorth penodol drwy bolisi marchnad pysgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd.
- Sicrhau bod dyframaeth yr Undeb Ewropeaidd yn para'n **gynaliadwy** drwy gynhyrchu mewn ffordd sydd er lles yr amgylchedd, drwy sicrhau safonau uchel o ran iechyd a lles creaduriaid a thrwy warchod defnyddwyr.
- Gwella **llywodraethu**'r sector drwy sefydlu gwell fframwaith ar gyfer llywodraethu a chreu amodau sydd yr yn fath i bawb. Mae'n bwysig darparu mwy o wybodaeth dryloyw er mwyn codi **proffil** y sector.

Mae Senedd Ewrop wrthi'n paratoi adroddiad i ymateb i strategaeth dyframaeth arfaethedig y Comisiwn.[238]

Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn meddwl bod dyframaeth yn bwysig ac yn galw am barhau ag arian Ewrop er mwyn dal i gefnogi ei ddatblygiad. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gyrff anllywodraethol ym maes yr amgylchedd a chynrychiolwyr defnyddwyr yn mynegi pryder ynglŷn ag effeithiau negyddol arferion dyframaeth ar yr amgylchedd, yn enwedig o ran disbyddu stociau pysgod bychain cefnforol a ddefnyddir i fwydo llu o rywogaethau dyframaeth.[239] Galwodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig am ymchwil i ddod o hyd i ffynonellau protein amgen ar gyfer anifeiliaid a ffermir yn y dŵr.[240]

Mae Senedd Ewrop yn gweld dyframaeth yn rhan hanfodol o'r PPC.[241] Mae nifer o gyrff anllywodraethol ym maes yr amgylchedd yn cytuno y dylid cynnwys dyframaeth yn y PPC er mwyn hyrwyddo cynhyrchu pysgod mewn ffordd sy'n gynaliadwy i'r amgylchedd, ond mae un garfan yn arddel barn wahanol gan alw am reoli dyframaeth yn benodol o dan offeryn Ewropeaidd ar wahân neu gan yr Aelod Wladwriaethau eu hunain.[242] Cefnogwyd ymdrechion Llywodraeth y Deyrnas Unedig gan yr Undeb Ewropeaidd i annog twf o fewn y sector ond pwysleisiwyd bod dyframaeth, i raddau helaeth, yn dal i ddod o fewn cylch gwaith cymhwysedd

---

[237] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Questions and answers – New impetus for the sustainable development of EU aquaculture*, 8 Ebrill 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[238] Y Comisiwn Ewropeaidd, Datganiad i'r Wasg, *Maria Damanaki Member of the European Commission Responsible for Fisheries and Maritime Affairs Europe's fisheries: the main issues on the road ahead Meeting of the EP Fisheries Committee with national parliaments Brussels*, 1 Mehefin 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[239] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[240] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[241] Senedd Ewrop, *Resolution on the Green Paper on the reform of the Common Fisheries Policy*, 2009/2106 (GI), 25 Chwefror 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[242] Dogfen Weithio'r Comisiwn Ewropeaidd, *Synthesis of the Consultation on the Reform of the Common Fisheries Policy* SEC(2010)428 final, 16 Ebrill 2010 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

cenedlaethol. Nid oeddent o blaid cymorth nac ymyrraeth sylweddol gan y Gymuned.[243]

Yn 2005, roedd bron 14 y cant o gynnyrch dyframaeth yr Undeb Ewropeaidd (o ran foliwm) yn dod o'r Deyrnas Unedig.[244] Yn draddodiadol, mae dyframaeth masnachol yng Nghymru wedi canolbwyntio ar feithrin pysgod cregyn o dan reolaeth yn y môr a chynhyrchu salmonidau mewn dŵr croyw. Yn 2005, amcangyfrifwyd mai gwerth meithrin cregyn môr yng Nghymru oedd oddeutu £12 miliwn. Yr oedd 12 o safleoedd ffermio pysgod cregyn wedi'u cofrestru o dan reolaeth 11 o fusnesau a'r rheini'n cyflogi 43 o weithwyr amser llawn ac 13 o weithwyr rhan-amser. Canolbwyntio ar gregyn gleision a dyfir ar wely'r môr y bydd y rhan fwyaf o'r cynhyrchwyr. Cymru sy'n arwain y Deyrnas Unedig o ran cynhyrchu cregyn gleision ar wely'r môr, ac mae'r cwmnïau mwyaf yn defnyddio'r treillongau cregyn gleision diweddaraf un. [245] Ceir crynodeb o'r prif gategorïau dyframaeth yng Nghymru yn Atodiad B y papur hwn.

Mae sawl is-sector dyframaeth môr newydd ac arloesol wedi egino yng Nghymru yn sgil cymorth diweddar gan gynlluniau grantiau'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys ffermio rhywogaethau o bysgod ag asgell mewn Systemau Dyframaeth Ailgylchredol a chynhyrchu creaduriaid di-asgwrn-cefn yn y môr i'w defnyddio'n abwyd genweirio ac yn elfennau o ddyfrfwydydd. Dywed *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru* fod y gweithgareddau newydd hyn wedi dechrau hybu arbenigedd ym maes dylunio a gweithgynhyrchu systemau dyframaeth, a gweithgynhyrchu dyfrfwydydd yng Nghymru.[246]

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod cryn le i gryfhau gwerth economaidd y sector dyframaeth, yn bennaf drwy gynlluniau sydd wedi'u hanelu at ei wneud yn llai darniog ei natur a thrwy ychwanegu seilwaith prosesu ag iddo werth ychwanegol. Mae'n yn galw am gapasiti ffermio ychwanegol a sefydlu cyfleusterau prosesu lleol er mwyn sicrhau cymaint o swyddi ag y bo modd yn y sector.[247]

Ym mis Ionawr 2008, lansiwyd Cymdeithas Cynhyrchwyr Dyframaeth Cymru. Ei phwrpas yw cynrychioli safbwyntiau'r diwydiant er mwyn sicrhau bod y sector dyframaeth yn chwarae rhan lawn wrth ddatblygu'r strategaeth. Mae hefyd yn cynnig cymorth a chyngor i'r aelodau, yn enwedig o ran materion trwyddedu, cynrychioli'r diwydiant a chynorthwyo gyda marchnata.[248]

---

[243] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Response to the European Commission Reform Green Paper on the Common Fisheries Policy*, 23 Rhagfyr 2009 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[244] Ffeithlen y Comisiwn Ewropeaidd, *Aquaculture*, [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[245] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Wales Fisheries Strategy*, 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]
[246] ibid
[247] ibid
[248] Datganiad i'r Wasg, The FishSite *WAPA Boosts Welsh Aquaculture*, 4 Chwefror 2008 [Cyrchwyd 15 Mehefin 2010]

## *2.16. Crynodeb o Safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyrdd*

Wrth ymateb i Bapur Gwyrdd y Comisiwn, mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer y diwygio. Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd pysgota'r glannau ar raddfa fach i economi Cymru ac mae'n galw am reoli fflyd y glannau mewn ffordd wahanol. Mae'n meddwl y byddai rheoli pysgodfeydd y glannau ar lefel ranbarthol yn ei gwneud hi'n haws gwneud penderfyniadau mwy manwl ar gyfer y pysgota ar raddfa fach sy'n digwydd yno. Mae Llywodraeth Cymru yn galw am ddiwygio Sefydliad y Farchnad Gyffredin er mwyn cefnogi cynhyrchu lleol ac er mwyn hybu marchnata cynnyrch pysgodfeydd cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru'n pwyso hefyd am reoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau gan weld hynny'n fodd o wneud diwydiant pysgota Cymru'n fwy economaidd hyfyw. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyrdd yn canolbwyntio ar y fflyd sy'n pysgota ar raddfa fach, gan gyferbynnu hynny ag ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig a oedd yn canolbwyntio ar y fflyd fasnachol sy'n pysgota ar raddfa fawr.

## 3. Amserlen ar gyfer Diwygio'r PPC

Hyd yn hyn, mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu Papur Gwyrdd ar ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a fu'n destun ymgynghori cyhoeddus rhwng mis Ebrill 2009 a 31 Rhagfyr 2009. Bu diddordeb sylweddol yn y diwygio sydd ar y gweill i'r PPC, a chafwyd cyfanswm o 382 o gyfraniadau yn ogystal ag e-bost torfol o 1329 ymateb a oedd i gyd yn cynnwys yr un testun yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Papur Gwyrdd. Lleisiwyd buddiannau Cymru yn uniongyrchol gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru, Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru a Llywodraeth Cymru. Cynrychiolwyd buddiannau eraill o Gymru drwy gyfrwng cyrff eraill a oedd yn cynrychioli'r Deyrnas Unedig i gyd neu Ewrop i gyd, megis asiantaethau cadwraeth natur statudol y Deyrnas Unedig. Roedd y rheini'n cynnwys barn Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn eu hymateb. Darparwyd synthesis o ganlyniadau'r ymgynghori hwn ym mis Ebrill 2010.

Yn y diwygio sydd ar y gorwel, bydd y Comisiwn yn drafftio Papur Gwyn ac wedyn yn llunio pedwar cynnig deddfwriaethol: y rheoliad sylfaenol, Sefydliad newydd y Farchnad Gyffredin, mesurau technegol a'r rheoliad newydd ar ariannu erbyn diwedd 2010. Cyflwynir y rhain i Gyngor a Senedd Ewrop. Bydd unrhyw gynigion ynglŷn â diwygio'r PPC yn dod o dan weithdrefn cydbenderfynu lle bydd yn rhaid i'r Cyngor a'r Senedd gytuno ynglŷn â'u safbwynt. Bydd y Comisiwn yn anfon y cynigion deddfwriaethol at y Cyngor a'r Senedd a fydd yn cynnal dau ddarlleniad yr un, y naill ar ôl y llall. Oni allant gytuno ar ôl dau ddarlleniad, yna, sefydlir Pwyllgor Cymodi a hwnnw'n cynnwys yr un nifer o gynrychiolwyr o'r naill sefydliad a'r llall. Ar ôl i'r Pwyllgor hwn gytuno, bydd y testun yn dychwelyd at y Senedd ac at y Cyngor ar gyfer trydydd darlleniad er mwyn iddo gael ei fabwysiadu'n destun deddfwriaethol.

Daw'r diwygiadau newydd i'r PPC i rym erbyn 1 Ionawr 2013.

## Atodiadau

**A. Dosbarthiad y Pysgodfeydd Môr Masnachol yng Nghymru**

| | Is-sector | Rhywogaeth a dargedir | Y gêr a ddefnyddir |
|---|---|---|---|
| Ar y môr | Banerlongau | Amrywiaeth o'r pysgod gorau, langoustine | Gêr symudol - treillrwydi'r dyfnfor a threillrwydi trawst |
| | Cychod dyfnforol cymysg | Amrywiaeth o'r pysgod gorau | Gêr symudol - treillrwydi'r dyfnfor a threillrwydi trawst |
| Ar y glannau | Cychod dyfnforol cymysg | Amrywiaeth o'r pysgod gorau | Gêr symudol - treillrwydi'r dyfnfor,threillrwydi trawst a rhwydi |
| | Pysgod cregyn | Cimychiaid, crancod corryn a chrancod melfed, gwichiaid, corgimychiaid | Gêr sefydlog - cewyll cimychiaid, cewyll gwichiaid, rhwydi |
| | | cregyn bylchog | Gêr symudol - treillrwydi cregyn bylchog |
| | Pysgodfeydd tymhorol | Draenogiaid, hyrddod, mecryll, penwaig | Gêr sefydlog - rhwydi drifft/drysu, rhwydi llaw |
| | | Corbenwaig | Leiniau hir, rhwydi â rhwyllau mân |


Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru,* 2008

**B. Crynodeb o'r Prif Gategorïau Dyframaeth yng Nghymru**

| Disgrifiad | Rhywogaeth | Dull | Safle |
|---|---|---|---|
| Dyframaeth pysgod cregyn y môr | Cregyn gleision | Meithrin ar waelod y môr | Afon Menai, Bae Abertawe |
| | Wystrys | Meithrin heb fod ar waelod y môr | Afon Menai |
| Dyframaeth pysgod adeiniog y môr | Lledod garw, Draenogiaid y môr | Systemau Dyframaeth Adilgylchredol | Ynys Môn, Gwynedd |
| Dyframaeth creaduriaid di-asgwrn cefn yn y môr | Abwydod gwyrdd | Llwybrau tywod | Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin |
| Cynhyrchu dŵr croyw a physgota hamdden | Brithyllod seithliw a brithyllod | Tanciau ("llifo drwodd") a phyllau | Amrywiol |
| Ailstocio dŵr croyw | Eogiaid yr Iwerydd, brithyllod | Tanciau ("llifo drwodd") | Asiantaeth yr Amgylchedd, y Canolbarth a'r De |
| Arall, ar raddfa fach | Pysgod addurniadol mewn dŵr croyw ac yn y môr | Tanciau, pyllau | Amrywiol, ar raddfa fach |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Strategaeth Pysgodfeydd Cymru*, 2008

C. **Ardal Parth Pysgodfeydd Newydd Cymru**




Sylwer: Mae'r ardal lle mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros bysgodfeydd yn cael ei hymestyn yn awr i'r ardal sydd wedi'i lliwio'n binc.

Ffynhonnell: Defra, *Mesur y Môr a Mynediad at yr Arfordir* – Mapiau Dangosol, Gorffennaf 2009

**D.** **Byrfoddau**

| | |
|---|---|
| mf | môr-filltir |
| PPC | Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin |